
# Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

## Cynllun Gwella Rhan 2 ac Adroddiad Blynyddol ar Gyflawni Amcanion Llesiant 2017/18



## Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn nodi cyfraniad a pherfformiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn 2017/18 yn erbyn ei amcanion llesiant. Mae hefyd yn dangos sut yr ydym wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein gwaith, a'r ddogfen hon hefyd yw ein hadroddiad blynyddol ar gydraddoldeb (gweler Amcan 1, 3, 4, 5 a 6.)

Dymunwn ddiolch i'r staff, yr Aelodau, gwirfoddolwyr, partneriaid a chymunedau o fewn y Parc a thu hwnt am ein cynorthwyo i gyflawni'r gweithgareddau a amlygir yn y ddogfen hon.

Yn ystod y cyfnod hwn roedd Cynllun Llesiant Sir Benfro yn cael ei ddrafftio, a bydd y Cynllun hwn yn dylanwadu ar waith yr Awdurdod yn y dyfodol.

## Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei ddynodi yn 1952 o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cwmpasu ardal o 612 cilomedr sgwâr, ac mae tua 23,000 o bobl yn byw mewn rhyw 50 o ardaloedd cyngor cymuned. Mae'r rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol mewn perchenogaeth breifat a dim ond tua 1% y mae'r Awdurdod yn berchen arno.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro ei greu fel awdurdod lleol annibynnol ac iddo ddiben arbennig, a hynny o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (y Ddeddf). Mae'r Awdurdod yn cynnwys 18 Aelod, y mae 12 ohonynt wedi'u henwebu gan Gyngor Sir Penfro a chwech wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru.

## Dibenion y Parc a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol

Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn nodi mai Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol yw

- **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol ardal y parc**
- **Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig yr ardal.**

Hefyd mae'r Ddeddf yn nodi bod dyletswydd ar yr Awdurdod, wrth fynd ar drywydd y dibenion uchod, i feithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Bob pum mlynedd mae'n ofynnol i'r Awdurdod lunio Cynllun Rheoli y Parc Cenedlaethol sy'n pennu sut yr hoffai weld y Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli, a hynny nid gan yr Awdurdod yn unig ond gan yr asiantaethau a'r sefydliadau eraill y gallai eu gweithgareddau effeithio ar y Parc.

Yr Awdurdod yw'r awdurdod cynllunio statudol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol ac mae'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol.

| Ein Hamcanion Llesiant a'u cyfraniad at Nodau Llesiant Cymru |
|---|
| **Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden** |
| Mae hyn yn cyfrannu at 'Cymru Lewyrchus' a 'Cymru Gydnerth' trwy roi anogaeth i ddatblygu busnesau newydd a phresennol a chynyddu nifer y swyddi gan beidio â chefnogi defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol. Dylai cynnal a hyrwyddo asedau twristiaeth yn y Parc, gan gynnwys llwybr yr arfordir, hybu 'Cymru Mwy Cyfartal' a 'Cymru Iachach'. |
| **Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol** |
| Mae ymagweddau sy'n seiliedig ar natur a pholisïau cynllunio hyrwyddir gan yr Awdurdod yn gymorth i sicrhau ecosystemau iach yn y Parc sy'n cyfrannu at 'Gymru Gydnerth'. Mae'r Awdurdod yn hyrwyddo ymagwedd sy'n seiliedig ar le ynghyd â gweithio gyda thirfeddianwyr a chymunedau ar warchod y Parc a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd, mae hyn yn cefnogi 'Cymru o Gymunedau Cydlynus'. |
| **Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwu wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau** |
| Mae gweithgarwch yn yr awyr agored, megis cerdded, yn gallu gwella'r teimlad o lesiant, lleihau straen a gall fod yn ysbrydoledig. Trwy hybu defnydd mwy rheolaidd o'r awyr agored, annog gwirfoddolwyr a dileu rhwystrau i fynediad mae'r amcan hwn yn cyfrannu at greu 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal a 'Cymru o gymunedau cydlynus. |
| **Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC.** |
| Bydd yr Awdurdod yn parhau i annog ystod fwy cynrychiadol o bobl i ymgysylltu a bod yn rhan o waith yr Awdurdod a'r Parc Cenedlaethol, gan gyfrannu at 'Gymru Mwy Cyfartal.' Bydd yn defnyddio'i Gynllun Cydraddoldeb Strategol i sefydlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yng ngwaith a diwylliant yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. |
| **Gweithio ochr yn ochr â chymunedau i'w helpu i gael y gorau o'r Parc Cenedlaethol** |
| Eisoes mae llawer o gymunedau, cymunedau buddiant megis tirfeddianwyr a grwpiau lleol, yn ymgysylltu â'r Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cyfrannu at ei waith sy'n amrywio o ymateb i ymgynghoriad i brosiectau lleol ar wella'r amgylchedd. Drwy gymryd ymagwedd o gydgynhyrchu, ymwneud â chyfleoedd newydd megis cynllun adfer natur Sir Benfro a datblygu ein gwaith i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd sy'n gynrychiadol o'r gymdeithas, byddwn yn ychwanegu at 'Gymru o Gymunedau Cydlynus'. |
| **Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.** |
| Mae gan Sir Benfro ddiwylliant cyfoethog yn y celfyddydau, treftadaeth ac iaith y mae'r Awdurdod yn ei gefnogi. Caiff hyn ei gydnabod fel rhan o unigrywiaeth yr ardal gan gyfrannu at greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. |
| **Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang.** |
| Drwy leihau ein hôl troed carbon yn barhaus, hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau o fewn y Parc, cefnogi'r agenda twf gwyrdd drwy brosiectau SDF ac addysgu pobl am rinweddau arbennig y Parc, mae'r Awdurdod yn cyfrannu at 'Gymru Gyfrifol yn Fyd- |

eang.'

Hefyd cafodd mesurau a chamau gweithredu eu sefydlu ar gyfer llywodraethu a bod yn gynaliadwy yn ariannol i allu cynnal yr Awdurdod i gyflawni'r canlyniadau uchod yn effeithiol yn awr ac yn y tymor hirach.

## Cyllid

Llywodraeth Cymru sy'n penderfynu ar wariant net yr Awdurdod drwy ddyrannu'r Grant Parc Cenedlaethol blynyddol a'r ardoll, oedd heb ei newid o 2016/17 ar £3,939k.  Fodd bynnag, mae hyn yn dilyn gostyngiad yn y blynyddoedd blaenorol; Yn 2014/15, roedd yr Awdurdod wedi derbyn gostyngiad o £349k, neu 7.4%, yn y Grant a'r ardoll, ac yna gostyngiad pellach o 4.12% yn 2015/16 a 6.04% yn 2016/17. Felly, roedd cyfanswm Grant ac Ardoll yr Awdurdod wedi gostwng £782k o £4,721k yn 2013/14 i £3,939k yn 2016/17. Mae'r cynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau yn y canolfannau, incwm o'r meysydd parcio a thaliadau eraill ac incwm grant wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn yr arian craidd.

## Mesur Perfformiad – Amcanion Llesiant

Er mwyn mesur ein perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant mae'r Awdurdod wedi edrych ar gasglu data ar draws nifer o feysydd newydd ochr yn ochr â dangosyddion allweddol a statudol presennol. Bydd y data hwn yn ffurfio llinell sylfaen ar gyfer dadansoddi perfformiad yn erbyn ein Hamcanion Llesiant yn y dyfodol. Cydnabyddir y bydd angen i'r dangosyddion a ddefnyddir addasu i newidiadau allanol, a bod y dangosyddion hynny yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben wrth i'r data gael ei gasglu a'i gymharu flwyddyn ar ben blwyddyn yn y dyfodol.

Mae'r Awdurdod hefyd yn edrych ar sut y gall ddefnyddio data ansoddol i helpu i ddadansoddi ei gyfraniad a'i berfformiad yn erbyn yr Amcanion Llesiant i roi dadansoddiad mwy cyflawn.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy: Tymor Hir, Ataliol, Integreiddio, Cydweithio, a Chynnwys Defnyddwyr.Yn y ddogfen hon drwyddi draw, rhoddir enghreifftiau o sut rydym wedi cymhwyso'r egwyddorion hyn yn ymarferol.

**Amcan Llesiant 1: Cefnogi ac annog datblygiad cyflogaeth a busnesau cynaliadwy, yn enwedig ym maes twristiaeth a hamdden.**

## Cynllunio Tymor Hir - Cynllun Datblygu Lleol

Yn ystod 2018/19 cytunodd yr Awdurdod ar y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo (CDLl) ar gyfer ymgynghori, yn unol â'r terfynau amser a nodir yn y Cytundeb Cyflawni ar gyfer y Cynllun. Mae'r cynllun yn nodi polisïau cynllunio i roi arweiniad ar lle dylai datblygiadau ddigwydd a lle na ddylent ddigwydd yn y Parc tan 2031. O dan y cynllun, mae parseli o dir yn cael eu dyrannu ar gyfer tai, gan gynnwys tai fforddiadwy. Hefyd mae'r CDLl yn amlygu ardaloedd y dylid eu hamddiffyn rhag datblygu, megis mannau agored, cefn gwlad a'r arfordir. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys polisïau i gefnogi datblygiadau busnes a datblygiadau cymunedol. Mae'r CDLl Adneuo wedi bod yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd, Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd, a chafodd y strategaeth a ffefrir hefyd ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

## Gwasanaeth Cynllunio – Gweithredu polisi cynllunio yn ymarferol

| | |
|---|---|
| 84.91% | o geisiadau cynllunio a benderfynwyd o fewn y cyfnodau amser gofynnol. Targed 80. APC Eryri - 74.70%. APC Bannau Brycheiniog - 96%. |
| 70.75 | diwrnod, oedd yr amser ar gyfartaledd a gymerwyd i benderfynu ar bob cais cynllunio. Targed <67. 61 diwrnod yn 2016/17. APC Eryri - 82 days. APC Bannau Brycheiniog - 68 diwrnod. |
| 590 | oedd nifer y ceisiadau cynllunio a gofrestrwyd. 576 yn 2016/17. |
| 85.11% | o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd. 89% yn 2016/17. Targed 90. APC Eryri - 90.8%. APC Bannau Brycheiniog - 95%. |
| 92.07% | o geisiadau cynllunio a benderfynwyd dan bwerau dirprwyedig. APC Eryri - 96.3%. APC Bannau Brycheiniog - 98%. |
| 63.64% | o apeliadau a wrthodwyd. Targed 66. APC Eryri - 57%. APC Bannau Brycheiniog - 86%. |
| 4.88% | (2/41) o benderfyniadau a wnaed gan Aelodau yn erbyn cyngor swyddogion (argymhelliad). Targed <5. APC Eryri - 17.6% (3/17). APC Bannau Brycheiniog - 0%. |

**2** — o geisiadau am gostau mewn apêl adran 78 a ganiatawyd yn ystod y cyfnod adrodd. Targed 0. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 0.

## Adroddiad Perfformiad Cynllunio Blynyddol 2016/17 - Datblygu Cynaliadwy

Bob blwyddyn mae'r Awdurdod yn cyflwyno adroddiad ar ein perfformiad ym maes cynllunio i Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys ein perfformiad yn erbyn Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, ac mae hyn yn rhoi cyfle i ni roi cyd-destun i'n perfformiad yn y meysydd hyn. Mae'r mesurau yn cynnwys caniatâd cynllunio ar gyfer datblygu economaidd newydd ar safleoedd cyflogaeth a ddyrannwyd, a chaniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer datblygu ynni adnewyddadwy a charbon isel. Cyhoeddir ein hadroddiad yn flynyddol ar ein gwefan.

## Ymwelwyr – Ymgysylltu pobl â Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol

**233,302** — ymwelwyr â'n canolfannau ar draws y Parc.

**27** — o ddigwyddiadau awyr dywyll wedi'u cynnal gan yr Awdurdod. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i ddysgu a mwynhau'r awyr dywyll a'r sêr a welir o ganlyniad.

**368** — o fynychwyr yn nigwyddiadau awyr dywyll yr Awdurdod. APC Bannau Brycheiniog - 493 yn mynychu 6 o ddigwyddiadau awyr dywyll.

**14** — o drwyddedau ffilmio wedi'u rhoi gan APCAP yn 2017/18. Derbyniwyd 68 o ymholiadau ffilmio yn ystod y cyfnod hwn.

**37,448** — o ddilynwyr ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol gyda 272,099 o ymweliadau â'n prif wefan.

**Cyfleoedd Gwella: Gwefan Newydd**

Yn ystod 2018/19 bydd yr Awdurdod yn edrych i ddatblygu gwefan newydd i wella ein cynnig ar-lein.

**Ymateb i adborth gan ymwelwyr:**

| | |
|---|---|
| 4 | Tystysgrifau Rhagoriaeth Trip Advisor ar gyfer ein canolfannau a Llwybr yr Arfordir. |
| 4.5 | Yr un peth oedd sgôr gyffredinol Trip Advisor ar gyfer Castell Henllys, Oriel y Parc a Chastell a Melin Caeriw yn 2017/18. |
| 1 | Gwobrau Busnes Sir Benfro am Wasanaeth i Gwsmeriaid, a enillwyd gan Gastell a Melin Lanw Caeriw. |
| 5 | Yr un peth oedd sgôr gyffredinol Trip Advisor ar gyfer Llwybr Arfordir Sir Benfro yn 2017/18. |

""Roedd yr ymweliad yn werth chweil ac yn hwylus i gadair olwyn ... Roedd y croeso gan y dyn wrth y fynedfa yn gynnes iawn ac eglurodd y llefydd gorau o'r castell y gallwn eu gweld fel defnyddiwr cadair olwyn"

Ymwelydd ag Castell Caeriw

"Dysgais fwy mewn 2 awr fan hyn nag mewn llawer un o'r gwersi hanes yn yr ysgol. Cymeradwyaeth uchel."

Ymwelydd ag Castell Henllys

"Nid oeddem yn ymwybodol o gysylltiad Graham Sutherland â'r ardal, ond rydym wedi'n goleuo erbyn hyn. Mae'r gwahanol ofodau yn yr oriel yn ardderchog ac mae ystafell Sutherland yn arbennig o wych. Pa mor anhygoel yw gweld ei baentiadau yn yr ardal â'i ysbrydolodd gymaint."

Ymwelydd ag Oriel Y Parc

"Rhai teithiau cerdded gwych. Rhai ohonynt yn hawdd ac eraill yn anodd megis yr un o Draeth Poppit i Drefdraeth! Golygfeydd godidog ac mae'r bysiau wennol lleol mor hwylus! "

Defnyddiwr Llwybr Arfordir

**Cyfleoedd Gwella: Gwasanaeth i Gwsmeriaid**

Ar lefel weithredol, mae'r staff yn gyson yn adolygu ac yn ymateb i sylwadau ar Trip Advisor, gan ein galluogi i ymateb drwy wella'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau ar lawr gwlad.

**Cydweithio i gymryd golwg hirdymor ar ddarparu gwybodaeth i dwristiaid**

| | |
|---|---|
| **Treialu Parcmyn yr Haf** | Bu'r Awdurdod yn treialu dull newydd o gyflwyno gwybodaeth ac ennyn diddordeb pobl yn ardal Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot yn ystod haf 2017. Bu parcmon tymhorol yn rhoi gwybodaeth yn y fan a'r lle ac yn cyflwyno gweithgareddau mewn lleoliadau lle mae nifer uchel o ymwelwyr a lle gallai rhyngweithio ategu ac ychwanegu at brofiad yr ymwelydd. Yn dilyn y cynllun peilot hwn, mae dau barcmon tymhorol wedi'u penodi ar gyfer Gogledd a De'r Parc yn 2018/19. |
| **Golwg ar y Parc (Parkwise)** | Mae'r Awdurdod wedi bod yn ymgysylltu â darparwyr twristiaeth o fewn y cymunedau i ddod yn llysgenhadon ar ran y Parc drwy ei sesiynau Golwg ar y Parc (Parkwise). Mae sesiynau wedi'u cyflwyno i staff Parc Hamdden y Garreg Las yn ne'r sir ac i staff Cyngor Sir Penfro sy'n rhoi gwybodaeth i ymwelwyr. Mae gwaith ar y gweill i weld sut y gellid cyflwyno sesiynau tebyg i fusnesau eraill yn y byd twristiaeth ledled y Parc. |
| **Llwybrau Celtaidd** | Mae'r Awdurdod yn rhan o brosiect tair blynedd a ariennir gan INTERREG rhwng Gorllewin Cymru a Dwyrain Iwerddon gyda'r nod o gynyddu ymweliadau gan dwristiaid rhwng y ddwy wlad â ffocws penodol ar Ogledd Sir Benfro. |
| **Gweithdai gyda Busnesau Twristiaeth** | Comisiynodd yr Awdurdod dri gweithdy fis Mai a mis Mehefin 2018 ar draws Gogledd Sir Benfro a anelwyd yn benodol at fusnesau twristiaeth i ddeall sut y gallwn gefnogi'r fasnach dwristiaeth drwy ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr. |
| **Llwybr Arfordir Cymru** | Mae Llywodraeth Cymru a Croeso Cymru wedi comisiynu'r Awdurdod i gyflwyno ymgyrch i farchnata Llwybr Arfordir Cymru yn genedlaethol drwy gydol 2018 a 2019. |
| **Coast To Coast** | Mae'r Awdurdod wedi parhau i ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr ac i'r cymunedau lleol am ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd yn y Parc drwy'r cylchgrawn Coast to Coast. Caiff y cyhoeddiad hwn ei ddosbarthu i leoliadau ar hyd a lled Sir Benfro, ac mae'r cylchgrawn hefyd ar gael ar-lein drwy'r App Coast to Coast. |
| **Cynlluniau Dehongli** | Mae'r tîm dehongli yn comisiynu cynlluniau dehongli diwygiedig ar gyfer Gogledd a De Sir Benfro. Bydd y ddau gynllun yn asesu'r ystod lawn o wybodaeth a ddarperir gan APCAP (hysbysfyrddau, taflenni, y cyfryngau cymdeithasol ac ati) ac yn creu cynllun i foderneiddio a diweddaru ein dulliau o ddarparu gwybodaeth. Bydd y gwaith yn cael ei wneud o 2018 i 2020. |

**Cynnal Llwybr yr Arfordir a Hawliau Tramwy Mewndirol yn y Parc ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol**

| | |
|---|---|
| 86.31 | % o Hawliau Tramwy ar agor ac yn hygyrch ac yn bodloni'r safon ansawdd. Mae hyn yn gynnydd ar y ffigur 2017/18 o 85.81%. |
| 260 | Ymatebwyd i'r pryderon ynghylch safonau Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn 2018/19. |

**Cymryd agwedd integredig tuag at gynnal a gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus**

Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda Chyngor Sir Penfro a'r Fforwm Mynediad Lleol ar adolygu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus. Mae hwn yn gynllun statudol ac mae'r adolygiad yn anelu at sicrhau bod yr Awdurdodau yn parhau i glustnodi, cynllunio a blaenoriaethu gwelliannau i'w rhwydweithiau llwybrau yn effeithiol dros y 10 mlynedd nesaf. Bydd y cynllun yn destun proses o ymgynghori â'r cyhoedd ar y cyd rhwng yr Awdurdodau yn 2018/19.



**Timau Wardeniaid yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweithio ar dorri cloddiau dros yr haf ar hawl tramwy cyhoeddus.**

**Ffyrdd Newydd o Weithio:** Bydd y Prosiect Parc Digidol yn edrych ar sut i wella'r systemau 'swyddfa gefn' ar gyfer y Wardeniaid a'r timau cysylltiedig, gan edrych ar

wella meysydd megis cofnodi gwaith, casglu data a threfnu amser drwy ddigido a symleiddio'r broses.

**Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy drwy gydweithio ag eraill**

| | |
|---|---|
| **Canllawiau Rheoli Digwyddiadau** | Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnig cyfle gwych ar gyfer digwyddiadau awyr agored, yn denu digwyddiadau fel Iron Man a digwyddiadau Triathlon eraill. Mae'n bwysig bod y digwyddiadau hyn yn cael eu cynnal mewn ffordd gynaliadwy ac yn ystyried dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â lleoliad a sensitifrwydd. Mae'r awdurdod wedi bod yn gweithio gyda Chyngor Sir Penfro i ddatblygu canllawiau rheoli digwyddiadau i helpu i reoli digwyddiadau mewn dulliau cynaliadwy. |
| **Prosiect Cysylltiadau Naturiol** | Gweithiodd y prosiect peilot hwn gyda saith busnes twristiaeth ledled y Parc Cenedlaethol i asesu a gwella bioamrywiaeth ar safleoedd mewn perchnogaeth breifat a gwella profiad ymwelwyr. Cafodd pob busnes a oedd yn cymryd rhan arolwg ecolegol o'u tir ynghyd ag adroddiad ecolegol, a oedd yn argymell opsiynau a allai gyfoethogi eu tir a'u hadeiladau ar gyfer bywyd gwyllt. Bu'r gwirfoddolwyr yn Tyriet Farm yn adeiladu gwâl i ddyfrgwn, tra bu gwaith plannu coed a phlygu gwrychoedd yn mynd rhagddo yng ngwersyll Brandy Brook. Aeth Gwesty Penrhiw ati i wella'u dôl wair drwy hau hadau Cribell felen, aeth Castell Pictwn ati i ddathlu eu dôl gyda bwrdd dehongli newydd a chafodd Parc Gwyliau Llwyngwair Manor offer a hyfforddiant i gynnal sesiynau archwilio yn yr afon a'r llyn i ymwelwyr. |
| **Parcmon Castellmartin** | Mae Parcmon Castellmartin wedi parhau i gysylltu â gweithio gyda grwpiau hamdden, gan gynnwys hwyluso'r cyfarfod dringo blynyddol a'r cyfarfod blynyddol mynediad a hamdden. |
| **Rhodd Ymwelwyr** | Cymeradwywyd cyllid LEADER yn 2017/18 ar gyfer astudiaeth dichonoldeb rhodd ymwelwyr. |

**Cefnogi busnesau lleol a hybu datblygiad sgiliau**

| | |
|---|---|
| 53.78% | o wariant yr Awdurdod a wariwyd yn lleol (Cod Post SA) |
| 97.16% | o anfonebau a dalwyd ar amser. Uwchlaw'r targed 97 ond gostyngiad ar 98.25% yn 2017/18. APC Eryri - 97.93%. APC Bannau Brycheiniog - 95%. |

**265** o stondinwyr sy’n cyfranogi mewn ffeiriau a digwyddiadau lleol yn ein canolfannau. Cefnogwyd hefyd drwy'r canolfannau, 25 artistiaid/gwneuthurwyr crefftau

| | |
|---|---|
| **Cefnogi Contractwyr Lleol** | Yn 2017/18 cafodd llwybr troed newydd ei greu ym Mae Gorllewin Angle. Gwnaed y gwelliannau, gan gynnwys adeiladu llwybr troed wyneb caled a ffensio, gan gontractwyr lleol law yn llaw â Wardeniaid Awdurdod y Parc Cenedlaethol. |
| **Sgiliau ar Waith** | Roedd y grŵp o hyfforddeion yn 2016/17 wedi cwblhau eu blwyddyn ar y rhaglen a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri ddiwedd mis Awst.  Roedd yr Awdurdod wedyn wedi ymestyn y rhaglen Sgiliau ar Waith i gynnig dau gwrs hyfforddiant ychwanegol o chwe mis. Roedd y rhaglen hon yn rhoi cyfle i brentisiaid ddysgu amrywiaeth eang o sgiliau ymarferol cadwraeth a rheoli ystadau. Mae hyfforddeion blaenorol wedi llwyddo i gael gwaith gan ystod o sefydliadau yn y sector rheoli cefn gwlad. |
| **Datblygu Sgiliau** | Un elfen o'r prosiect Llwybrau yw cynorthwyo’r rhai sy’n cymryd rhan i ddatblygu eu sgiliau a magu hyder drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli a chael hyfforddiant perthnasol. Dros gyfnod y prosiect, mae'r Awdurdod yn anelu at olrhain y ffyrdd y mae unigolion yn elwa o'u profiad o'r prosiect. Mae'r timau Wardeniaid wedi parhau i gynnal lleoliadau gwaith i fyfyrwyr coleg, ysgol a phrifysgol gan roi cyfleoedd i bobl ddatblygu sgiliau rheoli cefn gwlad. |
| **Masnachfraint y Caffi a Chonsesiynau** | Mae'r Awdurdod yn cefnogi nifer o fusnesau drwy gynnig masnachfraint i redeg caffi yng Nghastell Henllys ac yn Oriel y Parc, a chonsesiynau addas ar ein hystâd gan gynnwys cyfleoedd i gadw fan hufen iâ ar nifer o’n safleoedd. |
| **Pwyth mewn Pryd** | Mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygu sgiliau lleol. Mae’r adborth gan fusnes bach wedi’i nodi: “Mae gennyf berthynas waith ardderchog â’r tirfeddianwyr ac arweinydd y prosiect ac mae'r prosiect wedi bod o gymorth i mi mewn sawl ffordd fel busnes bach, gan gynnwys ariannu cwrs ar blaladdwyr, fel y gallwn wedyn fynd ymlaen i drin unrhyw achos o glymog Siapan oedd wedi'i ganfod yn yr ardal glirio." |

**Cyfleoedd Gwella: Datblygu sgiliau tymor hir**

Mae Cynllun Llesiant Sir Benfro yn clustnodi 'Fframwaith trawsnewid recriwtio a chyflogaeth' fel un o'i feysydd prosiect. Mae'r Awdurdod wedi clustnodi fel un o'i weithgareddau ar gyfer 2018/19 yr angen i archwilio ar lefel strategol y cyfleoedd i ddatblygu dysgu seiliedig ar waith, prentisiaethau, cynlluniau hyfforddiant, a

chyfleoedd secondio o fewn yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cysoni'r gweithgaredd hwn â'r dyheadau yn y Cynllun Llesiant.

## 3ydd diben i'r Parc Cenedlaethol

Dros y blynyddoedd diwethaf hyn, mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol wedi bod yn dadlau o blaid cydnabod trydydd diben mewn deddfwriaeth ac wedi bod yn ymwneud â Llywodraeth Cymru yn y gwaith o adolygu'r tirweddau dynodedig yng Nghymru. Fis Mai, cyhoeddodd Gweithgor Llywodraeth Cymru ar Dirweddau'r Dyfodol ei ddogfen 'Tirweddau'r Dyfodol: Cyflawni dros Gymru - Adolygiad o Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru'. Dilynwyd hyn gan Ddatganiad Llafar y Gweinidog dros yr Amgylchedd i'r Cynulliad Cenedlaethol fis Mawrth 2018. Yn y datganiad hwn, dywedodd y Gweinidog na fydd Llywodraeth Cymru yn newid dibenion y Parciau Cenedlaethol. O ran gweithgaredd sy'n cynnal gwydnwch cymdeithasol ac economaidd cymunedau, nododd y datganiad nad oes unrhyw rwystr i'r Parciau Cenedlaethol wneud hynny o fewn eu diben presennol. Felly mae'r gweithgareddau y mae'r Awdurdod wedi bod yn eu cynnal o dan yr Amcan Llesiant hwn yn gydnaws â dibenion presennol y Parc.




**Lansiodd yr Awdurdod boster rheilffordd retro newydd yn dangos Llwybr Arfordir Sir Benfro ger Capel St Non yn 2017/18.**

**Amcan Llesiant 2: Gwella iechyd ecosystemau'r Parc Cenedlaethol.**

**Gwarchod a gwella Ecosystemau'r Parc drwy reoli ein heiddo ein hunain a chydweithio gyda thirfeddianwyr a ffermwyr**

| | |
|---|---|
| 4,320 | ha o waith cynnal a chadw wedi'i wneud ar fwy na chant o safleoedd, (7% o'r Parc Cenedlaethol), gyda'r nod o ddod â budd i gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth. |
| 463 | ha o eiddo a berchnogir neu a brydlesir gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth. |
| 1,107.6 | ha o dir yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth mewn partneriaeth â thirfeddianwyr preifat. |
| 2,750.37 | ha o dir mynediad lle mae'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn cefnogi partneriaeth rheoli tir comin. |
| 100 | y % o'r safleoedd rheoli cadwraeth mewn cyflwr ecolegol da a/neu mewn gwell cyflwr ecolegol ac yn cael eu rheoli yn unol â'u cynllun rheoli. |

**Cam Ymlaen – Safle yn symud o Oren i Wyrdd**

Ar ôl sawl blwyddyn o gael ei asesu yn 'Oren', mae un safle penodol yn ardal Maenorbŷr bellach wedi cael statws 'Gwyrdd'. Mae'r Awdurdod wedi cynnal prosiect rheoli glaswelltir a phori ar gyfer cadwraeth ac mae'r ddôl bellach o ansawdd da gydag ystod o rywogaethau nodweddiadol. Er ein bod yn dal i ymdrin â rhai materion rheoli (megis llechfeddiant y ladi wen a'r efwr), mae rheolaeth y safle wedi'i sefydlu ac roedd prynu offer mwy o faint yn golygu ei bod yn bosibl cywain gwair o ansawdd da a gallu gwaredu'r gwair fel porthiant yn hytrach na'i gadw ar y safle ar gyfer compostio. Mae'r patrwm pori yn gweithio'n dda. Hefyd gwelwyd y frân goesgoch yn bwydo ar y safle yn ystod gaeaf 2017/18.

Mae'r safle yn esiampl o arfer gorau o adfer glaswelltir amwynder ar gyfer pryfed peillio, ac mae llwyddiant y gwaith hwn wedi'i ddwyn i sylw Llywodraeth Cymru o dan eu cynllun gweithredu ar gyfer pryfed peillio. Hefyd mae'r safle yn enghraifft ragorol o glustogi Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar yr arfordir, gan amddiffyn a gwella'r nodweddion arbennig a rhoi mwy o le i ddefnyddwyr Llwybr Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro / Llwybr Arfordir Cymru.

## Gweithio ar y cyd i wella cysylltiadau rhwng cynefinoedd a gwella'r Amgylchedd Naturiol

**38** hectar o gynefinoedd newydd i bryfed peillio wedi'u creu

Mae saith cytundeb newydd wedi'u gwneud eleni sy'n cwmpasu ychydig dros 55 hectar. Mae'r cytundebau hyn yn canolbwyntio ar reoli ac adfer gweirgloddiau. Mae tri o'r rhain yn agos at ei gilydd ac yn agos i eiddo'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn Freshwater East, gan ffurfio cadwyn o dir a reolir ar gyfer bywyd gwyllt. Dros wledydd Prydain gyfan, rydym wedi colli o leiaf 98% o'n gweirgloddiau ers y 1930au, felly mae'r rhai sy'n weddill yn werthfawr iawn. Bydd y cytundebau newydd hefyd yn helpu i adfer nifer o ddolydd i'w hen ogoniant, yn dilyn cyfnod o ffermio mwy dwys.

**4** safle yn Ardal Arbennig Mynydd y Preseli wedi'u creu ar gyfer Cadwraeth (Ardal Cadwraeth Arbennig) eleni. Goruchwyliwyd y gwaith gan Dîm Warden y Gogledd.

Roedd y gwaith yn rhan o brosiect partneriaeth oedd yn cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru a Phartneriaeth Natur Sir Benfro. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi clustnodi tri safle ym Mynachlog-ddu sef Waun Isaf, Glynsaithmaen a Thycwta, lle gellid gwella'r ffrydiau dŵr a'r nentydd ar gyfer Mursen y De a rhywogaethau eraill drwy gloddio mecanyddol. Mae'r Ardal Cadwraeth Arbennig wedi'i dynodi yn rhannol oherwydd yma mae'r ail boblogaeth fwyaf o Fursennod y De yng Nghymru ac o bosibl yn Ewrop. Mae'r cynefin y mae'r fursen yn dibynnu arno yn dirywio yn bennaf oherwydd bod llai o wartheg a merlod yn pori ar y comin. Yn ogystal, crëwyd nifer o nodweddion dŵr agored unionlin newydd ac ategol hefyd i roi mwy o gyfleoedd i'r rhywogaethau targed.

## Dôl Llanion - Meddwl yn gorfforaethol am fioamrywiaeth

Nid pencadlys yr Awdurdod yn Noc Penfro yw'r lle y byddech yn disgwyl dod o hyd i ddôl hanner hectar o flodau gwyllt. Tua chwe blynedd yn ôl, roedd yr Awdurdod wedi gadael i'r glaswellt dyfu'n hir i greu gweirglodd a'i dorri unwaith y flwyddyn. Erbyn hyn mae'n cynnwys amrywiaeth enfawr o flodau gwyllt, gan gynnwys môr o flodau pengaled penddu, y melynydd cyffredin, pys y ceirw, y gribell felen a'r meillion coch.

**Cynnwys gwirfoddolwyr mewn gwaith cadwraeth sy'n helpu i wella iechyd Ecosystem y Parc Cenedlaethol**

**915** — Diwrnodau gwirfoddoli a gyflawnwyd ar dasgau'n ymwneud â chadwraeth yn 2017/18. 96% o gynnydd ar 2016/17.

**72** — o Wardeniaid Gwirfoddol wrthi'n ddyfal ar ddiwedd 2017/18. .

| | |
|---|---|
| **Fferm Llanferran – Ffensio ar gyfer Pori Cadwraeth** | Mae ffensio rhag anifeiliaid yn pori yn rhan hanfodol o unrhyw gynllun pori cadwraeth, ac ar Fferm Llanferran, mae gwirfoddolwyr wedi codi dros cilomedr o ffens newydd atal defaid. Bydd hyn yn caniatáu i ferlod bori gweundir arfordirol Penbwchdy yn hytrach na thorri i mewn i'r glaswelltir cyfagos. Mae gwirfoddolwyr wedi cyfrannu dros 100 diwrnod o waith gwirfoddol ar y gweithgaredd hwn, gyda Wardeniaid Gwirfoddol, Cyfeillion y Parc Cenedlaethol a grwpiau Ymddiriedolaeth y Tywysog oll yn cyfrannu. |

**Datblygu sgiliau'r rhai sy'n ymwneud â gwarchod y Parc**

Cynhaliwyd diwrnod astudio ar y 18fed o Ionawr oedd yn agored i bob gwirfoddolwr. Roedd 19 o wardeniaid gwirfoddol, 13 o wirfoddolwyr Llwybrau a grŵp Llwybrau o 5 o Fferm Gofal Clynfyw. Mae gwirfoddolwyr sy'n rhan o'r prosiect Llwybrau yn cael cyfle i gael hyfforddiant drwy eu gwaith gwirfoddoli. Datblygwyd cynlluniau ar gyfer Rhaglen Llysgenhadon y Parc fel rhan o'r prosiect Llwybrau gyda digwyddiadau yn y rhaglen hyfforddiant yn cyfrannu at y wybodaeth a'r dysg sydd eu hangen ar Lysgenhadon. Bydd cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael drwy Llwybrau hefyd ar gael lle bo llefydd yn caniatáu i Wardeniaid Gwirfoddol.

**Cynnwys gwirfoddolwyr a chymunedau wrth gyflawni gwaith ataliol parhaus ar rywogaethau anfrodorol ymledol**

**110** — y diwrnodau gwirfoddolwyr a dreuliwyd yn gwneud gwaith ar Rywogaethau Anfrodorol Goresgynnol yn 2017/18.

**43.95** — Hectarau rhywogaethau ymledol wedi'u gwaredu yn y tarddiad/chwistrellu yn 2017/18.

## Cymryd Ymagwedd Seiliedig ar Le – Rheoli o'r Tarddle i'r Môr yng Nghwm Gwaun

Mae dulliau rheoli o'r tarddle i'r môr ar waith yn awr yng Nghwm Gwaun i waredu Jac y Neidiwr a Chlymog Japan (ac eithrio un safle lle mae'r tirfeddiannwr wedi tynnu ei ganiatâd yn ôl). Ar ddalgylch Clydach, bydd y rheolaeth yn cyrraedd eleni y man lle mae'r afon yn ymuno â'r brif Afon Nyfer.

Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr adnoddau sydd eu hangen ar bob safle yn lleihau o flwyddyn i flwyddyn. Fis Medi 2017 roedd safleoedd Jac y Neidiwr ar gyrion uchaf Cwm Gwaun yn glir o'r rhywogaeth. Yn y tymor blaenorol, parhaodd yr ymdrech i reoli'r rhywogaeth tan wythnos gyntaf mis Tachwedd.

Mae un o'n grwpiau gwirfoddoli craidd, Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, wedi gallu symud o'u safle gwreiddiol ar is-afon Cleddau, a defnyddio eu hadnoddau yn is i lawr yn y dalgylch.



**Gwirfoddolwyr yn cyfrannu at fynd i'r afael â rhywogaethau anfrodorol ymledol**

## Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a gwarchod nodweddion arbennig y Parc drwy bolisïau cynllunio

**0** — y datblygiadau a gymeradwywyd yn groes i bolisïau gwarchod y dirwedd (Polisi 8 yn y Cynllun Datblygu Lleol) yn 2017/18. 0 yn 2016/17. Cafwyd 1 yn 2015/16.

**Gweithio i warchod coed a choetiroedd yn y Parc Cenedlaethol**

| | |
|---|---|
| 57 | ceisiadau i wneud gwaith i goed a warchodir y penderfynwyd yn eu cylch. APC Bannau Brycheiniog - 15. |
| 3 | gorchmynion diogelu coed newydd a wnaed. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 1. |

**Heriau i Warchod Coed yn y Parc 2017/18 - Cwympo Coed yn Anghyfreithlon**

Cafodd tua 30 o goed eu torri yn anghyfreithlon yn un o'r grwpiau o goed a warchodir gan Orchymyn Gwarchod Coed ar Warchodfa Natur Leol Freshwater East. Er gwaethaf ymchwiliadau gan swyddogion, ac apêl yn y wasg i aelodau'r cyhoedd a hyd yn oed y cynnig o rodd ariannol, nid oes gan yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ddigon o dystiolaeth ar hyn o bryd i erlyn.

**Gweithio ar y cyd a chymryd ymagwedd integredig tuag at warchod a gwella ecosystemau'r Parc**

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth Natur Sir Benfro** | Yn 2017 lansiwyd Partneriaeth Natur Leol Sir Benfro. Mae'r Bartneriaeth hon yn rhoi trosolwg strategol ac yn fforwm ar gyfer cydweithio i roi blaenoriaethau'r UE, y DU, Cymru a'r blaenoriaethau lleol ar waith ar gyfer gweithredu ar fioamrywiaeth. Mae'r Bartneriaeth wedi cynhyrchu copi drafft o Gynllun Adfer Natur. Mae'r Awdurdod wedi bod yn rhan o'r bartneriaeth mewn prosiect gyda Byd Bygiau o'r enw B-linell. Nod y prosiect oedd mapio coridorau peillio strategol ar draws De a Gorllewin Cymru. Fel rhan o'r prosiect, cafodd cynefinoedd arfordirol y Parc Cenedlaethol eu hamlygu yn gynefinoedd strategol bwysig. |
| **Rhwydwaith Pori Sir Benfro** | Eleni roedd Rhwydwaith Pori Sir Benfro wedi cefnogi pori ar 40 o safleoedd sy'n cwmpasu ardal o 328ha. Yn ogystal, mae'r rhwydwaith yn cefnogi pori ar 9 o safleoedd sy'n eiddo i'r Awdurdod, sy'n cwmpasu rhyw 240ha. |
| **Grŵp Rheoli Tân** | Mae'r Grŵp hwn yn cynnwys partneriaid allweddol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru, Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gweinyddir y grŵp gan PLANED fel is-grŵp o Rwydwaith Amaethyddiaeth Gynaliadwy Sir Benfro, ac aelod o'r Awdurdod sy'n cadeirio'r grŵp. Ymhlith y gweithgareddau yn 2017/18 oedd rhaglen gynhwysfawr o dorri llystyfiant i arbed |

| | |
|---|---|
| | tanau, rhaglen a gynhaliwyd yn bennaf o fewn Ardal Cadwraeth Arbennig Mynydd y Preseli; llosgi dan reolaeth yng Nghraig Rhosyfelin ac ar Foel Dyrch; Cysylltu â Chydlynydd Gwiberod Sir Benfro a'i gefnogi, gan gynnwys ymgorffori data gwiberod gaeafgysgu yn y gweithgareddau llosgi dan reolaeth ac ymladd tanau gwyllt. |
| **Fforwm Arfordir Sir Benfro** | Mae swyddogion yr Awdurdod wedi gweithio gyda'r Fforwm Arfordirol ar ddatblygu Cynllun Rheoli'r Blaendraeth. Bydd y cynllun hwn yn cynorthwyo'r Awdurdod i flaenoriaethu ei waith yn y dyfodol yn y maes hwn. |
| **Pwyth mewn Pryd** | Yn y Cwm, Abergwaun, mae'r prosiect Pwyth mewn Pryd yn cydlynu'r partneriaid (Cyngor Sir Penfro, Cyfoeth Naturiol Cymru a grŵp cymunedol lleol) i sicrhau'r strategaeth reoli fwyaf cost-effeithiol ac annog eraill i roi'r gorau i reolaeth fesul tamaid. Yn ymarferol, mae hyn wedi golygu bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ail-ddyrannu cyllideb chwistrellu a fwriadwyd yn wreiddiol ar gyfer Jac y Neidiwr i reoli Clymog Japan, a bydd y grŵp cymunedol yn awr yn rhedeg partïon gwaith gwirfoddol i gael gwared ar Jac y Neidiwr. Mae hyn yn enghraifft dda o'r modd y mae cydlynu yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau pawb. |
| **Apêl ar y cyd â Heddlu Dyfed-Powys** | Yn ystod 2017/18, bu'r Awdurdod a Heddlu Dyfed-Powys yn apelio ar aelodau'r cyhoedd i roi'r gorau i wersylla yn y twyni tywod ar draeth Poppit sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau o gynnau tanau gwersyll a gadael sbwriel. |

**Sicrhau Cyllid ar gyfer prosiectau cadwraeth yn 2018/19.**

Dechreuodd y Prosiect Pwyth mewn Pryd yn 2015 gyda chyllid o Gronfa Datblygu Cynaliadwy y Parc, a llwyddwyd i barhau â'r gwaith gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru. Sicrhawyd cyllid i barhau â'r swydd Parcmon Castellmartin yn 2018/19.

**Cyfleoedd Gwella: Blaenoriaethu Prosiectau Cadwraeth**

Yn 2018/19 bydd yr Awdurdod yn ceisio datblygu fframwaith i helpu i flaenoriaethu a datblygu prosiectau cadwraeth. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu fframwaith ar gyfer blaenoriaethu prosiectau ehangach ar draws yr Awdurdod. Bydd yr Awdurdod hefyd yn edrych ar sut y gall sicrhau parhad yn y cyllid ar gyfer gwaith INNS (rhywogaethau estron goresgynnol) y tu hwnt i 2019.

**Amcan Llesiant 3: Galluogi ac annog mwy o bobl i wella'u llesiant trwy wneud mwy o ddefnydd o'r Parc Cenedlaethol ni waeth beth fo'u hamgylchiadau**

**Cael plant i ddysgu yn yr awyr agored, a chydweithio gydag athrawon er budd iechyd, lles a budd addysgol tymor hir**

**9,795** cyfranogwyr mewn sesiynau dysgu yn yr awyr agored.

**126** o athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn dysgu yn yr awyr agored yn 2017/18 ar draws 10 sesiwn.

| | |
|---|---|
| **Partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro** | Cafodd partneriaeth Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro ei sefydlu i hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored yn Sir Benfro. Yn 2016 sicrhawyd cyllid i gyflogi Cydlynydd Ysgolion Awyr Agored i ddatblygu gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion. Yn ystod 2017/18 parhaodd y Bartneriaeth i hyrwyddo dysgu yn yr awyr agored drwy gynorthwyo ysgolion ac athrawon a darparu ystod o wybodaeth, adnoddau, hyfforddiant a digwyddiadau. Trefnodd y bartneriaeth ddigwyddiad i ysgolion o bob rhan o Sir Benfro yng Nghanolfan Maes Orielton y Cyngor Astudiaethau Maes i ddathlu'r awyr agored gwych fel lle i blant o bob oed ddysgu. Bu mwy na 130 o blant yn cymryd rhan o Ysgol Gynradd Stepaside, Ysgol Plant Bach a Meithrin y Meads, Ysgol Gynradd Llandyfai, Ysgol Clydau, Ysgol Bro Dewi, Ysgol Gynradd Llandudoch ac Ysgol Gynradd Tafarn-sbeit. |
| **Gofod Dysgu Awyr Agored mewn Gardd Bywyd Gwyllt** | Mae Parcmon wedi gweithio gydag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Francis, Aberdaugleddau i greu gardd bywyd gwyllt drwy adeiladu 3 cynhwysydd planhigion, 1 gwesty bygiau, llwybr sglodion pren, sgriniau cyrs a thŷ draenog gyda chymorth disgyblion yr ysgol a Wardeniaid Gwirfoddol. Mae Parcmon wedi bod yn gweithio gydag Ysgol Gymunedol Doc Penfro i greu ardal ddysgu awyr agored a gardd bywyd gwyllt. |
| **Creu ardal ddysgu awyr agored i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu** | Mae Parcmon y De Orllewin wedi bod yn gweithio yn ystod 2017/18 ar brosiect mawr o ail-dirweddu 7ar dir 'Cam wrth Gam' yn Neyland. Y nodau yw dad-ddofi rhannau o'r lawnt (dôl blodau gwyllt, gardd synhwyraidd) a chreu ardal ddysgu heddychlon yn yr awyr agored ar gyfer y disgyblion y mae pob un ohonynt ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynhelir y gwaith bob dydd Gwener gyda Chynorthwyydd Cymorth Dysgu a rhai disgyblion sy'n amrywio o 14-17 oed. Hyd yn hyn maent wedi |

| | |
|---|---|
| **ychwanegol.** | creu llwybr cerdded troednoeth, ac mae gwaith wedi dechrau ar ddôl blodau gwyllt gyda 2 dŷ bygiau. |

**Helpu i hwyluso fforwm cydweithredol i roi cyfle i fwy allu manteisio ar iechyd a lles yn yr awyr agored**

Yn ystod 2017/18, parhaodd yr Awdurdod i hwyluso Rhwydwaith Gwasanaeth Iechyd Seiliedig ar Natur Gorllewin Cymru sy'n cynnig cyfleoedd i gomisiynwyr feithrin cysylltiadau â'r rhai sy'n darparu gwasanaethau ar lawr gwlad mewn cymunedau.

**Cynnig cyfleoedd cerdded â chymorth drwy'r cynllun Dewch i Gerdded i gael gwared ar rwystrau rhag manteisio ar yr awyr agored a gwella iechyd a lles pobl**

**1,771** cyfranogwyr yng nghynllun Dewch i Gerdded yr Awdurdod yn 2017/18.. Mae hyn yn cymharu â 1,689 yn 2016/17.

**701** o gyfranogwyr Dewch i Gerdded drwy'r cynllun Atgyfeiriadau Ymarfer Corff Gogledd a'r Canolbarth yn 2017/18.

**Ymhlith y grwpiau a gymerodd ran yn y cynllun Dewch i Gerdded yn 2017/18 oedd:**

- Cymunedau'n Gyntaf
- De Clare Court - Cynllun Tai Gofal Ychwanegol
- MIND
- Shalom House
- Meddygfa Dinbych y Pysgod
- REACH
- Elliot Hill Care Cyf
- Ewch allan a chadw'n heini

**Helpu eraill i allu darparu cyfleoedd cerdded â chymorth yn y dyfodol**

**50** arweinwyr grwpiau sydd wedi'u hyfforddi trwy sesiynau hyfforddi arweinwyr teithiau cerdded.

**Hyrwyddo a darparu cyfleoedd cerdded a gweithgaredd corfforol yn y Parc i gael canlyniadau cadarnhaol o ran iechyd a lles**

**35,253** o fapiau cerdded a lawr lwythwyd o wefan APCAP

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadur Ar-lein o Grwpiau Cerdded** | Trefnwyd bod cyfeiriadur newydd ar-lein rhad ac am ddim o grwpiau cerdded ar gael ar wefan yr Awdurdod gyda'r nod o sicrhau bod mwy o bobl Sir Benfro yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ganddynt ar garreg y drws ac sy'n helpu i wella eu hiechyd a'u lles. Mae'r cyfeiriadur yn cynnwys manylion gan fwy na 30 o grwpiau, o leoliadau sy'n cynnwys Llandudoch a Chilgerran yn y gogledd i Ddinbych-y-pysgod a Llanteg yn y de, gyda nifer yn trefnu teithiau cerdded ar hyd a lled y sir a thu hwnt |
| **Dewch i Gerdded Sir Benfro** | Mae'r Awdurdod wedi parhau i gymryd rhan yn y fenter Dewch i Gerdded Sir Benfro sydd â'r nod o annog pobl o bob oed a gallu i gymryd y camau cyntaf i wneud cerdded yn rhan o' u bywyd beunyddiol. Roedd hyn yn cynnwys hyrwyddo digwyddiadau cerdded yn ystod mis Hydref a mis Mai. Bellach mae Dewch i Gerdded y Parc yn dod dan ymbarél Dewch i Gerdded Sir Benfro. |

**20,729** o gyfranogwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau corfforol a darparwyd gan yr awdurdod yn 2017/18.

**2,853** o gyfranogwyr ar deithiau cerdded dan arweiniad y parcmyn, staff canolfannau a gwirfoddolwyr yn 2017/18. Cymerodd 141 o bobl ran mewn gweithgareddau ffitrwydd a ddarparwyd gan yr Awdurdod.

**173,441** o bobl sy'n defnyddio llwybrau troed (o 11 rifyddion sefydlog). Mae hyn yn cymharu â 166,540 o'r un rhifyddion yn 2016/17, cynnydd o 4.

**Gweithio ar y cyd i ddatblygu digwyddiadau rhedeg**

Mae'r Awdurdod wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â grŵp rhedeg lleol i ddatblygu digwyddiadau rhedeg mewn lleoliadau addas. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad treialu mewn partneriaeth â Harriers Sir Benfro dros bellter o 7.5km o gwmpas Castell San Ffraid. Trefnwyd digwyddiadau rhedeg eraill ar Draeth Niwgwl yn ystod y flwyddyn lle daeth nifer fawr ynghyd.

**Plant yn cymryd rhan mewn sesiynau hwyliog a chorfforol egnïol sy'n cyfrannu at fuddiannau iechyd a lles hirdymor**

**9,701** o blant ysgol cymerodd rhan mewn sesiynau egnïol corfforol a darparwyd gan yr awdurdod yn 2017/18. 648 o blant ysgol cymerodd rhan mewn teithiau cerdded dan arweiniad yr awdurdod.

**72.22%** o ysgolion yn y Parc Cenedlaethol cymerodd rhan mewn sesiynau corfforol egnïol darparwyd gan yr Awdurdod.

**75.71%** o ysgolion yn Sir Benfro cymerodd rhan mewn sesiynau corfforol egnïol.

**Cynnig cyfleoedd gwirfoddoli a phrosiectau cymunedol hwylus sy'n gymorth i beidio â theimlo'n ynysig ac sy'n hyrwyddo lles hirdymor.**

**2,156** Diwrnodau gwirfoddoli a gyfrannwyd gan wirfoddolwyr APCAP. Cynnydd o 25% ar 1,718 yn 2016/17. APC Eryri - 1466 diwrnod. APC Bannau Brycheiniog - 1,428 diwrnod.

| | |
|---|---|
| **Cydlynydd Gwirfoddoli a Gweithgareddau** | Yn ystod 2017/18 penododd yr Awdurdod Gydlynydd Gwirfoddoli a Gweithgareddau i gynorthwyo'r Awdurdod i ddatblygu cynigion gwirfoddoli a rhoi cymorth i wirfoddolwyr. Mae'r gwaith ar y gweill o ddatblygu llawlyfr i wirfoddolwyr. |
| **Llwybrau – Cynnig Mwy o Gyfleoedd i Wirfoddoli** | Mae Llwybrau yn brosiect APCAP a ariennir gan grant gan Lywodraeth Cymru. Nod y prosiect, a ddechreuodd yn hydref 2017, yw helpu mwy o bobl i dreulio amser yn yr awyr agored drwy gynnig cyfleoedd i wirfoddoli, dysgu a hyfforddi yn y Parc Cenedlaethol a'r ardaloedd cyfagos. Yng Nghoed Tŷ Canol (Gwarchodfa Natur Genedlaethol) bu gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr ag Archaeolegydd Cymunedol yr Awdurdod i glirio prysgwydd a rhedyn o gwmpas rhagfuriau caer Oes yr Haearn. Yng Nghoed Lodge Park ar Ystâd Ystagbwll yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bu grŵp Llwybrau wrthi yn rheoli'r coetir drwy glirio eiddew oddi ar y coed yw hynafol i sicrhau eu bod yn parhau mewn cyflwr da. Bu gwirfoddolwyr Llwybrau yn rhoi help llaw i dîm o Wirfoddolwyr Ann yn Llwynhelyg fu'n gweithio am fisoedd i glirio ardaloedd o ordyfiant o gwmpas Canolfan Bro Cerwyn ac Ysbyty Llwynhelyg. Gweithiodd y ddau grŵp gyda'i gilydd i waredu pentyrrau o lystyfiant o'r safle a'u cludo i'r safle amwynder dinesig gerllaw. |

| **Arwain Sesiynau - Digwyddiadau a Gweithgareddau** | Mae gwirfoddolwyr gyda'r Awdurdod yn chwarae rhan bwysig o ran cynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy'n hyrwyddo rhinweddau arbennig y parc ac yn rhoi cyfle i fwy fanteisio ar yr awyr agored. Er enghraifft, cyfrannodd gwirfoddolwyr 49.5 o ddiwrnodau gwirfoddoli i gynorthwyo'r prosiect Dewch i Gerdded. |
|---|---|

## Cymryd ymagwedd integredig i helpu i gynnig cyfleoedd teithio cynaliadwy i hwyluso manteisio ar yr awyr agored

Parhaodd yr Awdurdod ei ymrwymiad ariannol i'r Bartneriaeth Lonydd Glas sy'n darparu Gwasanaeth Bws Arfordir Sir Benfro yn 2017/18 ac yn 2018/19.

Teithiodd mwy na 90,000 o bobl ar y bysiau yn 2017/18, mewn cymhariaeth ag 85,000 yn y flwyddyn flaenorol ac 82,000 yn 2015/16. Cyngor Sir Penfro ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro sy'n rhedeg a thalu am y bysiau.




**Gwibiwr Strwmbl, un o fysiau poblogaidd yr arfordirol sy'n gwasanaethu morlin Sir Benfro.**

## Gweithio gyda Chymdeithas Croeso i groesawu ffoaduriaid i'r sir

Drwy weithio gyda sefydliadau Croeso lleol, roedd dau deulu o ffoaduriaid yn y sir wedi dod am ddiwrnod i Gastell Caeriw. Roedd yn gyfle gwych i'r ddau deulu gyfarfod am y tro cyntaf a chael llawer o hwyl yn mynd o gwmpas y castell. Roedd y cyfle yn galluogi'r teuluoedd i siarad am eu profiadau o gestyll yn Namascus, Alleppo ac yn Homs.

**Amcan Llesiant 4: Parhau i sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i sefydlu yng ngwaith a diwylliant yr APC**

**Parhau i asesu effaith cynlluniau a pholisïau ar nodweddion gwarchodedig**

2

o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ac un asesiad sgrinio. Roedd cwestiwn ar asesiadau o'r effaith ar yr amgylchedd wedi'i gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol.

**Darparu cyfleoedd datblygu sgiliau ar gyfer grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol**

| | |
|---|---|
| **Sgiliau ar Waith** | Mae cynllun gweithredu gan y ddau berson ychwanegol dan hyfforddiant ar Sgiliau ar Waith sy'n eu helpu i gael y gorau o'u hamser fel hyfforddeion. Fel rhan o'u cwrs hyfforddiant, maent wedi cael hyfforddiant ar gymorth cyntaf, peiriant ffustio, torrwr pysgwydd a hyfforddiant ar ddefnyddio llif gadwyn. Wedi'u lleoli o fewn tîm Warden y Gorllewin, mae'r Wardeniaid yn chwarae rhan allweddol wrth rannu eu sgiliau a'u gwybodaeth gyda'r hyfforddeion. |
| **Llwybrau** | Mae'r prosiect Llwybrau yn cynnig cyfleoedd i gyfranogwyr ddatblygu sgiliau newydd drwy gyfleoedd dysgu a hyfforddiant a gynigir ochr yn ochr â'u gwaith gwirfoddoli. Cymerodd deg o wirfoddolwyr ran yn y cwrs 'Cyflwyniad i Blygu Perthi', gan weithio gyda warden Castell Caeriw ar ran o glawdd ar ffin y safle. |
| **Cefnogi Cyfleoedd Dysgu i Bobl Ifanc a Phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Drwy'r Parcmyn mae'r Awdurdod wedi cynnig cyfleoedd dysgu awyr agored i bobl ifanc a phlant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynhaliwyd 3 sesiwn o waith ymarferol ar gyfer y Grŵp Darganfod yn Ysgol Syr Thomas Picton yn Hwlffordd. Grŵp yw hwn ar gyfer disgyblion sy'n cael cymorth ychwanegol allan o'r ystafell ddosbarth am amrywiol resymau. Bu'r myfyrwyr yn gwneud gwelliannau ar lwybr yr arfordir ger Gorllewin Dale, yn datblygu sgiliau a chael profiadau newydd, ac roedd y sesiynau hyn wedi denu presenoldeb llawn. Cyflwynwyd sesiynau dydd Mercher yn Ysgol Gyfun Aberdaugleddau gyda disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion ymddygiadol ac emosiynol i'w cynorthwyo i gwblhau adeiladu llwyfan newydd dipio pyllau a phlannu dros 30 o goed. Roedd Tîm Warden y De wedi croesawu disgybl o Ysgol Penfro dros y gaeaf 2017/18, gan roi cyfle iddo ddatblygu sgiliau rheoli cefn gwlad ar draws nifer o sesiynau. |

**A ydym wedi gweld cynnydd yn yr amrywiaeth o bobl sy'n ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod – Beth mae ein data monitro cydraddoldeb yn dangos:**

| Nifer y Ceisiadau am Swydd | | |
|---|---|---|
| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| 373 | 450 | 305 |

| Ymgeiswyr am Swyddi: Rhyw | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Benyw** | 38.9% | 38.4% | 37.4% |
| **Gwryw** | 61.1 % | 61.3% | 62.6% |
| **Heb ei ddatgan** | 0% | 0.2% | 0 |

**Sylw:** Ni fu llawer o newid yn y % o ymgeiswyr benywaidd a gwrywaidd dros y tair blynedd. Roedd dros 3/5 o ymgeiswyr yn ddynion

| Ymgeiswyr am Swyddi: Tarddiad Ethnig | | | |
|---|---|---|---|
| **Tarddiad Ethnig** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Gwyn** | 90.6% | 89.1% | 86.9% |
| **Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig** | 0% | 0.2% | 0.3% |
| **Heb ei ddatgan** | 9.4% | 10.7% | 12.7% |

**Sylw:** Er nad yw oddeutu 1/10 o ymgeiswyr dros y blynyddoedd wedi datgan y wybodaeth hon, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu mai ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig, sy'n parhau i fod yn isel, a bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn dod o gefndir ethnig Gwyn. Mae’r lefel isel o ymgeiswyr am swyddi o Gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig yn ei gwneud yn llai tebygol y gall yr Awdurdod gynyddu amrywiaeth yn y gweithlu.

| Ymgeiswyr am Swyddi: Oedran | | | |
|---|---|---|---|
| **Oedran*** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Dan 29/30** | 45.6% | 35.1% | 29.8% |
| **30 – 30/40** | 15.2% | 19.6% | 20.7% |
| **40 – 49/50** | 13.7% | 17.3% | 18% |
| **50 – 59/60** | 11% | 15.5% | 14.1% |
| **60 a throsodd** | 3.2% | 2.9% | 4.9% |
| **Heb ei ddatgan** | 11.3% | 9.6% | 11.1% |

**Sylw:** *Cyflwynwyd categorïau oedran newydd o’r 1af o Ionawr ac o ganlyniad gallai hyn effeithio ar gywirdeb ffigurau ymgeiswyr o oedrannau ar y ffin rhwng dau gategori.

Y grŵp oedran sydd wedi gweld gostyngiad mewn ymgeiswyr am swyddi dros y tair blynedd yw’r grŵp dan 29/30, ac mae'r gostyngiad hwn yn cyfateb i'r lleihad mewn llefydd gwag ar y cynllun sgiliau ar waith.

| Ymgeiswyr am Swyddi: Anabledd | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Wedi nodi fel un sydd ag anabledd** | 1.6% | 1.9% | 1% |
| **Wedi nodi fel un sydd heb anabledd** | 88.7% | 89.3% | 86.7% |
| **Heb ei ddatgan** | 9.7% | 8.6% | 12.1% |

**Sylw:** Er bod nifer yr ymgeiswyr heb ddatgan wedi cynyddu i fwy nag 1/10 o ymgeiswyr, mae'r data sydd ar gael yn awgrymu mai ychydig iawn o newid sydd wedi bod yn nifer yr ymgeiswyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd.

**Ceisiadau am swyddi: Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd.**

Dechreuodd yr Awdurdod gasglu'r data hwn o fis Ionawr 2018 ar ymgeiswyr am swyddi. Bydd y data hwn yn cael ei ddadansoddi ar ddiwedd cyfnod adrodd 2018/19.

| Gweithwyr sydd wedi gwneud cais i newid swydd | | |
|---|---|---|
| | **Nifer o ymgeiswyr mewnol** | **Nifer o ymgeiswyr llwyddiannus** |
| **2015/16** | 5 | 1 |
| **2016/17** | 21 | 8 |
| **2017/18** | 4 | 1 |

**Sylw:** Mae'r niferoedd yn rhy isel i adrodd yn erbyn y nodweddion a ddiogelir gan y gellid cysylltu unigolion â'r data a ddarperir.

**Cyfleoedd Gwella: Amrywiaeth gynyddol o ymgeiswyr am swyddi**

Yn 2018/19 mae'r Awdurdod yn gwneud newidiadau i'n proses o ymgeisio am swyddi, gan symud i broses ar-lein.  Y gobaith yw y bydd y symudiad hwn yn helpu i ddenu cynulleidfa ehangach o ymgeiswyr.

Mae'r Awdurdod wedi clustnodi fel un o'i weithgareddau ar gyfer 2018/19 yr angen i archwilio ar lefel strategol y cyfleoedd sy'n ymwneud â llwybrau mynediad i swyddi a datblygu sgiliau. Fel rhan o hyn, mae angen i'r Awdurdod ystyried mentrau all gynorthwyo i gynyddu cyfleoedd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ymgeisio am swyddi a chael cyflogaeth gyda'r Awdurdod a sefydliadau eraill. Er enghraifft, Cynllun y Llywodraeth ‘Hyderus o ran Anabledd’.

Yn 2018/19 bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i feincnodi'r Awdurdod yn erbyn sefydliadau eraill yn yr ardal. Hefyd mae angen gwneud mwy o waith i edrych ar chwalu delweddau a chanfyddiadau traddodiadol sy'n ymwneud ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a’r rhai sy'n gweithio iddynt, gan gynnwys edrych ar ddiwylliant yr Awdurdod i ddenu pwll mwy amrywiol o ymgeiswyr.

## Casglu, adrodd a dadansoddi data ar amrywiaeth ein gweithlu

**76%** wybodaeth Monitro Cydraddoldeb a gwblhawyd ar Pobl y Parc . Anfonwyd e-bost gan y Prif Weithredwr at y staff yn eu hannog i lenwi'r wybodaeth hon.

**Gweithwyr: Rhyw**

| Rhyw | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Menyw | 47.1% | 48.3% | 48.3% |
| Gwryw | 52.9% | 51.7% | 51.7% |
| Heb ei ddatgan | 0% | 0% | 0 |

**Sylw:** Ni fu llawer o newid yng nghyfran y gweithwyr Benywaidd a Gwrywaidd dros y tair blynedd, gyda 3.4% yn fwy o weithwyr Gwrywaidd na gweithwyr Benywaidd yn 2017/18.

**Employees: Tarddiad Ethnig**

| Tarddiad Ethnig | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| Gwyn | 67.7% | 69.8% | 76.2% |
| Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig | 0% | 0% | 0% |
| Heb ei ddatgan | 32.3% | 30.2% | 23.8% |

**Sylw:** Mae cyfran y gweithwyr sy'n darparu'r wybodaeth hon wedi cynyddu. Lle mae'r gweithwyr wedi darparu data, ni fu newid dros y tair blynedd yng % y gweithwyr sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig heb fod yn wyn, mae hyn yn parhau i fod ar 0%. Mae hyn yn cyfateb i'r nifer isel o ymgeiswyr am swyddi gan bobl sy'n nodi eu bod yn dod o gefndir ethnig heb fod yn wyn. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd gwaith cynhwysol er gwaethaf y diffyg mewn amrywiaeth ethnig.

**Gweithwyr: Oedran**

| Oedran | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 |
|---|---|---|---|
| 20 oed ac iau | 1.3% | 1.3% | 1.3% |
| 21 - 30 | 10.3% | 11.4% | 9.3% |
| 31 - 40 | 16.8% | 18.8% | 15.2% |
| 41 - 50 | 27.7% | 26.8% | 31.8% |
| 51 - 60 | 28.3% | 26.8% | 28.5% |
| 60 a throsodd | 14.1% | 14.8% | 13.9% |
| Heb ei ddatgan | 1.3% | 0% | 0% |

**Sylw:** Bu gostyngiad o 5.7% yn y % o dan 40 oed yn y gweithlu o 31.5% yn 2016/17 i 25.8% yn 2017/18. Roedd 10.6% o'r staff yn 2017/18 o dan 30 oed. Mae 42.4% o'r staff dros 50 oed, heb fawr o newid ar draws y tair blynedd, a bu cynnydd yn y staff yn y grŵp oedran 41-50 oed o 5% o'r flwyddyn flaenorol.

| Gweithwyr: Anabledd | | | |
|---|---|---|---|
| **Anabledd** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Wedi nodi fel un sydd ag anabledd** | 3.2% | 3.4% | 3.9% |
| **Wedi nodi fel un sydd heb anabledd** | 61.3% | 58.4% | 68.2% |
| **Heb ei ddatgan** | 35.5% | 38.3% | 27.8% |

**Sylw:** Mae nifer y staff heb ddatgan wedi gostwng o 10% o'r llynedd, fodd bynnag, mae dros 25% o'r staff heb ddarparu'r wybodaeth hon.  Ni fu llawer o newid o ran % y gweithwyr sy'n nodi bod ganddynt anabledd dros y tair blynedd gyda'r nifer yn parhau ar 3.9%.

| Gweithwyr: Crefydd neu Gred | | |
|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Dim crefydd** | 22% | 29.8% |
| **Cristnogaeth** | 29% | 28.4% |
| **Crefydd arall** | 3% | 3.3% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 5% | 6% |
| **Heb ei ddatgan** | 41% | 32.4% |

**Sylw:** Bu cynnydd yn nifer y staff sy'n darparu'r wybodaeth hon, fodd bynnag, mae ychydig dan draean heb ddarparu'r wybodaeth. Mae mwyafrif o'r staff naill ai heb unrhyw grefydd neu o'r ffydd Gristnogol. Ar ddiwedd 2018/19, bydd yr Awdurdod yn gallu cymharu proffil y gweithlu yn erbyn proffil yr ymgeiswyr. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd gwaith cynhwysol i bobl o bob crefydd neu sydd heb unrhyw grefydd o gwbl.

| Gweithwyr: Cyfeiriadedd Rhywiol | | |
|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Heterorywiol** | 52% | 58.3% |
| **L, H, D neu Arall** | 4% | 2.6% |
| **Gwell gennyf beidio â dweud** | 4% | 5.9% |
| **Heb ei ddatgan** | 40% | 33.1% |

**Sylw:** Bu cynnydd yn y staff sy'n darparu'r wybodaeth hon, ond mae traean heb ddarparu’r wybodaeth. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyrwyddo amgylchedd cynhwysol i staff sy'n nodi eu bod yn Lesbiaid, yn Hoyw, yn Ddeurywiol neu rywedd Arall. Ar ddiwedd 2018/19, bydd yr Awdurdod yn gallu cymharu proffil y gweithlu yn erbyn proffil yr ymgeiswyr.

| Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn | | |
|---|---|---|
| **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| 9 | 15 | 13 |

**Sylw:** Nid yw'r ffigyrau yn cynnwys staff dros-dro ar ddiwedd eu contract.

| Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn: Rhyw | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhyw** | **2015/16** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Menyw** | 55.6% | 46.6% | 53.8% |
| **Gwryw** | 44.4% | 53.3% | 46.2% |
| **Heb ei ddatgan / Dim gwybodaeth** | 0% | 0% | 0 |

**Sylw:** Mae'r patrwm ar draws y blynyddoedd yn dangos rhaniad eithaf cytbwys o ran staff benywaidd a gwrywaidd sy'n gadael yr Awdurdod, gan gymryd i ystyriaeth y niferoedd isel.

| Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn: Oedran | | |
|---|---|---|
| **Oedran** | **2016/17** | **2017/18** |
| **Dan 40** | 26% | 38.5% |
| **40 - 60** | 33.3% | 23.1% |
| **Dros 60** | 6% | 38.5% |
| **Heb ei ddatgan / Dim gwybodaeth** | 33.3% | 0% |

**Sylw:** Mae’n ymddangos bod effaith staff iau sy'n gadael yr Awdurdod yn cael mwy o effaith ar broffil oed y gweithlu nag effaith staff dros 60 oed sy’n gadael cyflogaeth yr Awdurdod.

**Gweithwyr a adawodd ein cyflogaeth yn ystod y flwyddyn: Tarddiad Ethnig, Crefydd neu Gred, Cyfeiriadedd Rhywiol**


Mae’r data hwn wedi’i ddadansoddi yn fewnol gan yr adran Personél i weld a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Mae'r set data yn rhy fach i adrodd ymhellach ar draws y nodweddion hyn.

**Cyfleoedd Gwella: Cefnogi staff i greu amgylchedd gwaith cynhwysol**

Mae angen gwneud gwaith pellach i weld pa mor effeithiol yw'r Awdurdod o ran hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd gwaith cynhwysol oherwydd y diffyg amrywiaeth yn y gweithlu mewn rhai meysydd, gan gynnwys edrych ar sut mae rheolwyr llinell yn cefnogi ac yn rheoli staff. Dylid clustnodi mesurau all fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy’n codi.

Yn 2018/19 bydd gwaith pellach yn cael ei wneud i feincnodi'r Awdurdod yn erbyn sefydliadau eraill yn yr ardal. Bydd yr Awdurdod hefyd yn bwriadu llunio adroddiadau bob hyn a hyn yn ystod 2018/19 i edrych ar effaith swyddi tymhorol ar broffil oedran y gweithlu.

## Proffil y gweithlu yn erbyn Graddfeydd Cyflog: Rhyw




**Sylw:** Mae'r Awdurdod yn cyflogi pobl mewn ystod eang o swyddi, a nifer ohonynt ag ond un deiliad swydd ac felly nid yw monitro yn ôl 'swydd' yn cael ei wneud. Rydym wedi uno Graddfeydd fel na ellir adnabod unigolion. Mae'r Awdurdod yn talu lwfans byw atodol i ddod â chyflogau i lefel sy'n cyfateb i'r Cyflog Byw sy'n effeithio ar swyddi Graddfa 1 i Raddfa 2. Nid oes unrhyw elfennau tâl sylweddol eraill sy'n daladwy ar ben y cyflog ar y raddfa. Mae'r ffigurau yn cynnwys gweithwyr tymhorol a gyflogir ar y dyddiad hwnnw ac mae'r cyfansymiau yn amlygu bod gan rai staff ddwy rôl gyda gwahanol raddfa i'r ddwy rôl. Ar lefel swyddi uwch mae'r Awdurdod yn eithaf cytbwys, fodd bynnag oherwydd nifer fach y swyddi, gall un neu ddau newid yn y swyddi gael effaith ar hyn. Mae rhaniad eithaf cytbwys o ddynion ar draws Graddfa 1-3 a 4-6, ond mae menywod yn fwy tebygol o fod ar raddfa 1-3 nag ar raddfa 4-6. Bu twf yn nifer y menywod ar SO1 - SO2 o 7 yn 2016/17 i 10 yn 2017/18. Ni fu unrhyw newid yn y cydbwysedd rhwng dynion a menywod ar lefel POA - POB rhwng 2016/17 a 2017/18.

## Proffil gweithlu yn erbyn y Math o Gontract / Patrwm Gwaith: Rhyw

| | Menyw | | Gwryw | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 | 2016/17 | 2017/18 |
| Llawn-amser | 22 | 25 | 54 | 62 | 76 | 87 |
| Rhan-amser | 50 | 49 | 23 | 18 | 73 | 67 |
| Parhaol | 47 | 59 | 56 | 58 | 103 | 117 |
| Dros-dro | 25 | 15 | 21 | 22 | 46 | 37 |

**Sylw:** Mae'r gostyngiad mewn swyddi dros-dro a'r cynnydd mewn swyddi parhaol yn ganlyniad i nifer o weithwyr yn cael eu symud o gontractau tymor penodol dwy flynedd i gontractau penagored.

Mae'r Awdurdod yn cefnogi gweithio oriau hyblyg ac mae gan yr Awdurdod weithwyr

sy'n gweithio ystod eang o batrymau gwaith o ran nifer yr oriau ar wahanol ddiwrnodau. Mae nifer o'r staff yn gweithio ar gynllun hyblyg, a gall pob aelod o staff ofyn am drefniadau gweithio hyblyg megis pythefnos 9 diwrnod; mae ceisiadau fel arfer yn cael eu cymeradwyo. Mae'r staff yn symud i mewn ac allan o drefniadau gweithio hyblyg wrth i amgylchiadau newid.

**Cyflog Teg - Sut mae'r Awdurdod yn ymateb i'r newidiadau i raddfeydd yr NJC**

Yn ystod 2017/18 cytunwyd ar ddyfarniad cyflog dwy flynedd yr NJC. Fodd bynnag, mae cyfraddau 2018 yn dal i adael pwyntiau cyflog 6-10 o dan y Cyflog Byw, felly bydd APCAP yn parhau i dalu lwfans hyd at y Cyflog Byw o £8.75 yr awr. Mae cytundeb yr NJC yn cynnwys newidiadau i'r golofn dâl ar gyfer 2019, ac mae opsiynau y gallai APCAP eu hystyried ymhellach mewn perthynas â hyn, yn dilyn cyflwyno'r materion hyn gerbron y Tîm Arweinyddiaeth, Cynrychiolwyr Staff a'r Fforwm Gweithwyr.

**Hyrwyddo mynediad i bawb a chydweithio ag eraill**

**8** — o gadeiriau olwyn ar y traeth a drefnwyd mewn partneriaeth â gweithredwyr ar hyd a lled y Parc.

**3,069** — o fapiau llwybrau cerdded addas i gadeiriau olwyn wedi'u lawrlwytho o'n gwefan yn 2017/18.

**Cymryd ymagwedd integredig o hyrwyddo twristiaeth agored i bawb**

Drwy weithio gyda staff perthnasol ar draws yr Awdurdod, mae ein swyddog Twristiaeth yn cynnal adolygiad o bob safle APCAP i weld pa mor hwylus ydynt i'w cyrraedd gan gynnwys agweddau corfforol a chymdeithasol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod 2018/19 a bydd yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd integredig a chysylltiedig at ddatblygu gwell cyfleoedd mynediad o fewn y Parc. Bydd y wybodaeth hon hefyd yn bwydo i mewn i waith Golwg ar y Parc i sicrhau bod darparwyr yn derbyn y wybodaeth fydd yn eu helpu i hyrwyddo twristiaeth hygyrch yn y Parc.

**Cyfleoedd Gwella: Adroddiad Archwilio a'r Calendr**

Yn ystod y flwyddyn 2017/18 parhaodd personél â'r rhaglen o arddangos posteri mewn swyddfeydd ar bob math o faterion. Cafodd calendr o ddigwyddiadau

cydraddoldeb ei ddatblygu, ond mae angen gwneud rhagor o waith i roi mwy o gyhoeddusrwydd i'r calendr a'i ddiweddaru i'w ddefnyddio yn fwy eang ac yn barhaus o fewn yr Awdurdod.

Mae angen gwneud rhagor o waith yn ystod 2018/19 i symud ymlaen â'r gwaith o archwilio ein gwasanaethau sy'n delio â chwsmeriaid wyneb yn wyneb a'r gwasanaethau hyrwyddo er mwyn clustnodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir a'r rhwystrau i grwpiau penodol. Mae rhywfaint o gyfleoedd i draws-ddysgu felly mae'r adolygiad yn cael ei gynnal ar draws safleoedd  APCAP..

**Cyflawni gweithgareddau i ddileu rhwystrau rhag cael mynediad i'r awyr agored**

**2,356** o bobl yn ymwneud â'n gweithgareddau cynhwysiant cymdeithasol yn 2017/18 o gymharu â 4,301 yn 2016/17. Defnyddiwyd dull newydd o adrodd a chofnodi eleni.

**Ymhlith y sefydliadau yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol yn 2017/18 oedd:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth y Tywysog | Clwb Ieuenctid Dinbych y pysgod | Tîm o amgylch y teulu - Cyngor Sir Penfro | MIND |
| Gofal yn y Gymuned Tyddewi | REACH | Elliot Hill Care Cyf | Canolfan Ieuenctid Hwlfforddd |
| Canolfan Ieuenctid Point - Abergwaun | Cymunedau'n Gyntaf | Gofal Lliniarol Tŷ Shalom | Ysgol Portfield |

| | |
|---|---|
| **Parcmyn Ieuenctid** | Mae Parcmyn Ieuenctid APCAP yn gweithio gyda phobl ifanc rhwng 16 a 25 oed.  Sefydlwyd y grŵp yn 2013 ar gyfer unigolion sydd â diddordeb a brwdfrydedd arbennig mewn gweithgareddau awyr agored.  Mae'r Parcmyn Ieuenctid yn cyfarfod o leiaf unwaith y mis, fel arfer ar ddydd Sadwrn.  Yn ystod 2017/18 trefnodd y grŵp ddwy daith preswyl, i Barc Cenedlaethol Eryri ac i Ynys Skomer yn ogystal â sesiynau gwirfoddoli ymarferol ar draws y Parc Cenedlaethol.  Hefyd |

| | |
|---|---|
| | mae'r Parcmyn Ieuenctid wedi bod yn ymwneud â Rhaglen Ieuenctid Ewro Barc, gan roi llais i bobl ifanc o ardaloedd parc cenedlaethol ledled Ewrop. Mae'r unigolion o fewn y grŵp yn dod o gefndiroedd amrywiol, gyda rhai mewn addysg llawn amser, eraill yn gweithio neu'n chwilio am waith. |



**Gweinidog yr Amgylchedd, Hannah Blythyn AC, yn cyfarfod â'r staff a gwirfoddolwyr o brosiect Llwybrau yr Awdurdod, a ariennir gan Lywodraeth Cymru.**

| | |
|---|---|
| **Llwybrau – Gwaredu Rhwystrau i Wirfoddoli** | Mae'r prosiect Llwybrau yn helpu'r cyfranogwyr i glustnodi'r hyn y maent yn dymuno'i gyflawni a'r hyn y gellir ei roi ar waith i'w cynorthwyo gyda'u profiad o wirfoddoli. Ffocws allweddol y prosiect yw gwaredu'r rhwystrau y gall pobl eu hwynebu i gael mynediad i wirfoddoli a'r buddiannau ddaw yn sgîl hynny. Hefyd mae'r prosiect yn gweithio gydag ystod o grwpiau o sefydliadau megis Fferm Gofal Clynfyw a Gofal Dydd Elliot's Hill i alluogi defnyddwyr eu gwasanaeth i wirfoddoli yn y Parc. Mae Monitro Cydraddoldeb yn cael ei wneud fel rhan o'r prosiect hwn, a bydd yn galluogi dadansoddi yn y dyfodol y modd y mae'r prosiect wedi rhyngweithio â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. |
| **Oriel y Parc – Canolfan Dementia Gyfeillgar** | Mae Oriel y Parc yn cynnal y Caffi Cof sy'n cynorthwyo pobl sy'n byw gyda dementia a heriau cof a'u gofalwyr. Trefnwyd hyfforddiant i staff y ganolfan ar dementia ac estynnwyd yr hyfforddiant i staff ar draws y sefydliad ac i wirfoddolwyr fis Ebrill 2018. |

**Cyfleoedd Gwella: Cynllun gweithredu ar ymgysylltu ac ennyn diddordeb pobl ifanc**

Mae angen rhagor o waith yn 2018/19 i ddatblygu cynllun gweithredu ar ymgysylltu. Mae'r adolygiad o Gynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol yn gyfle i dreialu dulliau newydd o ymgysylltu, a bydd hyn yn cynnwys datblygu ymhellach ein dulliau o ymwneud â phobl ifanc.

**Amcan Llesiant 5: Annog cymunedau i ymgysylltu’n fwy â’r Parc Cenedlaethol**

**Defnyddio polisïau cynllunio i hybu tai fforddiadwy**

**14.75%** o unedau tai a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn dai fforddiadwy yn 2017/18. 26.15% yn 2016/17.

**9** o unedau tai fforddiadwy wedi’u cymeradwyo yn 2017/18 o'i gymharu â 17 yn 2016/17. APC Eryri - 9. APC Bannau Brycheiniog - 9.

**£427,205** o Gyfraniadau Ariannol wedi’i dderbyn drwy gytundebau Adran 106 (a nodwyd yn Adroddiad Blynyddol 2016/17 ar Berfformiad Cynllunio).

**Cyfleoedd Gwella: Tai Fforddiadwy**
Mae’r heriau o ran darparu tai fforddiadwy yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig. Am gyd-destun ehangach i berfformiad ar dai fforddiadwy gweler Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Datblygu Lleol.

**Edrych i'r dyfodol drwy ymgysylltu â Phobl Ifanc i ofalu am y Parc**

**11** o Barcmyn Ieuenctid yn gweithio ar ddiwedd 2017/18.

**1** Gwobr Ymrwymiad i’r Amgylchedd i’r Parcmyn Ieuenctid yng Ngwobrau Radio Sir Benfro i Gyflawnwyr Ifanc yn 2017/18.

**438** cyfranogwyr yr ymgysylltwyd â hwy drwy ein gwaith cynhwysiant cymdeithasol gyda phobl ifanc.

**Ymgysylltu grwpiau cymunedol presennol a chymunedau newydd â phrosiectau cymunedol a digwyddiadau yn y Parc**

**623** o gyfranogwyr mewn digwyddiadau pop-yp, a drefnwyd fel rhan o raglen o ddigwyddiadau a gyflawnwyd gan y Parcmon Tymhorol yn Ne'r Parc.

**374** Prosiect Cymunedol/ Gweithgareddau Ymgysylltu yn 2017/18.

| | |
|---|---|
| **Llwybr Troed Newydd yn Cysylltu Pentref Angle a Bae Gorllewin Angle** | Clustnodwyd yr angen am y llwybr hwn gan Gyngor Cymuned Angle. Llwyddodd yr Awdurdod i sicrhau arian i ddatblygu'r llwybr o raglen grant Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Llywodraeth Cymru a chydweithrediad y tirfeddiannwr. Mae'r llwybr 280 metr o hyd yn golygu na fydd angen i bobl gerdded ar hyd ffordd fach gul mwyach, lle mae'r traffig yn drwm yn nhymor yr haf wrth i'r ceir deithio i'r traeth. |
| **Ymateb i Geisiadau gan y Gymuned** | Bu Parcmon y De yn gweithio gyda wardeniaid gwirfoddol yr Awdurdod i glirio llystyfiant o'r hen felin malu ym Maenorbŷr, a gymerodd sawl wythnos yn dilyn cais gan y gymuned i wneud y felin yn weladwy o'r ffordd ac o'r llwybr troed. |
| **Parcmyn yn mynychu Digwyddiadau yn y Gymuned** | Bu Parcmon y Gogledd yn mynychu Sioeau Abergwaun a Nanhyfer dros yr Haf gan roi cyfle da i ymgysylltu â'r gymuned ffermio leol. Tra bod Parcmon y Gorllewin wedi mynychu Gŵyl Ymylon Solfach ac arwain "Taith Gerdded yn yr Afon." |
| **Cloddio yng Nghastell Nanhyfer** | Prynwyd Castell Nanhyfer, sy'n Heneb Restredig, gan Gyngor Cymuned Nanhyfer yn 1980 er budd y gymuned leol ac ymwelwyr. Ffurfiwyd partneriaeth rhwng Cyngor Cymuned Nanhyfer, yr Awdurdod ac Adran Archaeoleg Prifysgol Durham, i ymchwilio i'r castell a gwneud gwaith cloddio. Cynhaliwyd y gwaith cloddio blynyddol hwn fis Mehefin a mis Gorffennaf 2017. Trefnwyd teithiau o amgylch y safle a noson agored i'r cyhoedd. |

**Ymhlith y grwpiau fu'n ymwneud â Gwaith yr Awdurdod ar Rywogaethau Ymledol oedd:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ymddiriedolaeth Afonydd Sir Benfro | Pysgotwyr Nanhyfer | Parcmon Ifanc PCAP | Grŵp Amgylchedd Abergwaun |
| Cymdeithas Llandudoch | Llais Llanychaer | Cyfeillion PCAP | Wardeiniaid Gwirfoddol PCAP |
| Cyngor Cymuned Abergwaun | Grwp Llwybrau Trefdraeth | Gweithffyrdd | Cyngor Cymuned St Florence |

**Cyfleoedd Gwella: Mapio'r gwaith o ymgysylltu â chymunedau**
Mae angen gwneud gwaith pellach o ran mapio ymgysylltu â chymunedau. Gwneir hyn yn rhannol drwy adroddiadau perfformiad yn 2018/19 a datblygu cynllun yr Awdurdod ar ymgysylltu. Mae astudiaethau achos o waith a wneir gyda chymunedau bellach yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau perfformiad.

**Cynnwys cymunedau mewn gweithgareddau dehongli**

Yn 2017/18 mae'r swyddog dehongli wedi bod yn canolbwyntio ar weithgareddau dehongli sy'n ymwneud ag ymwelwyr. Ymhlith y gweithgareddau a gynhaliwyd oedd ymgynghori â'r gymuned yn Fresh Water East i addasu llwybr Freshwater East at ddibenion gwahanol a'i gynnwys ar y wefan ac ar y teithiau cerdded ar y wefan, ac i ddiweddaru panel lleol y pentref. Cyflawnwyd gwaith gan Barcmon y Gogledd a chymuned Dinas i ddatblygu deunydd esboniadol ar yr hen ysgol.

Gan fod 2018 yn Flwyddyn y Môr Croeso Cymru ac fel Parc Cenedlaethol arfordirol rydym yn ceisio tynnu sylw'r cyhoedd at y perygl o ollwng sbwriel yn y môr, yn arbennig plastig. Comisiynodd yr Awdurdod arlunydd lleol i wneud cerfluniau o greaduriaid y môr - tri dolffin, llurs anferth, a physgodyn. Mae'r dolffiniaid yn llawn sbwriel morol sy'n weladwy, ac fe'u cymerir i wahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol, ynghyd â bwrdd dehongli, i ledaenu neges cadwraeth ein moroedd a'n glannau. Mae hyn yn gydnaws â nifer o gymunedau yn y Parc sy'n ceisio dod yn gymunedau di-blastig.

**Defnyddio asedau'r Parc i gynnal cyfleoedd i gymunedau ddod ynghyd**

| | |
|---|---|
| 12 | digwyddiadau cymunedol a ffeiriau a gynhelir mewn canolfannau . |
| 2,684 | o bobl wedi mynychu Ffair Nadolig Castell Caeriw a Marchnad Nadolig Oriel y Parc, sy'n dangos effaith gadarnhaol cynnal digwyddiadau gydol y flwyddyn. |

| | |
|---|---|
| **Lle Cyfarfod** | Mae amrywiaeth o grwpiau cymunedol wedi defnyddio Oriel y Parc ar hyd y flwyddyn i gwrdd a dod ynghyd. Mae hyn yn cynnwys clwb hanes lleol, plantos penfro sef grŵp sy'n cyflwyno plant i'r Gymraeg drwy weithgareddau, a'r caffi Cof. |
| **Cefnogi Grwpiau Celfyddydau Cymunedol** | Mae Oriel y Parc yn parhau i gefnogi grwpiau Celfyddydau Cymunedol drwy gynnig lle iddynt ddatblygu a gwerthu. Roedd Gwneuthurwyr Crefftau Sir Benfro, sef grŵp lleol o wneuthurwyr crefft, peintwyr a ffotograffwyr, wedi cael cyfle i arddangos eu gwaith a'i werthu fis Awst. Bu Nyddwyr a Lliwyddion Sir Benfro |

| | |
|---|---|
| | yn cynnal diwrnod arddangos fis Mehefin 2017 yn y ganolfan. |

## Helpu cymunedau i ddod yn geidwaid y Parc

Er nad yw cynllun ceidwaid ar gyfer Llwybrau Cerdded wedi cael ei ddatblygu mae cynllun Gwarcheidwaid Traeth yn cael ei ddatblygu, a'r gobaith yw lansio’r cynllun a’i dreialu mewn 4 o leoliadau yn ystod hydref 2018/19. Mae’r Rheolwr Gwasanaeth Parcmyn wedi cwrdd â phartneriaid allweddol gan gynnwys Cadwch Gymru'n Daclus a Chyngor Sir Penfro sy’n cefnogi'r cynllun y mae'r Awdurdod yn ei ddatblygu. Mae'r cynllun ceidwaid ar gyfer safleoedd treftadaeth bellach wedi cychwyn drwy’r prosiect Gwarcheidwaid Treftadaeth sy'n gweithio gydag ysgolion lleol ac sy’n cael ei arwain gan yr Archeolegydd Cymunedol.

## Y Gwasanaeth Cynllunio - Amseroedd gorfodi a’r system rheoli dogfennau

**60.12%** o achosion gorfodi wedi’u hymchwilio (cyn pen 84 diwrnod) yn 2017/18**.** 54% yn 2016/17. APC Eryri - 93.20%. APC Bannau Brycheiniog - 82%.

**234** diwrnod, yr amser cyfartalog a gymerir i ymchwilio i achosion gorfodaeth mewn diwrnodau yn 2017/18. 199 diwrnod yn 2016/17.APC Eryri - 33.5 diwrnod. APC Bannau Brycheiniog - 50 diwrnod.

**334.5** diwrnod, yr amser cyfartalog a gymerir i gymryd camau gorfodaeth mewn diwrnodau yn 2017/18. 284 diwrnod yn 2016/17. APC Bannau Brycheiniog - 320 diwrnod.

**Cyfleoedd Gwella: Gorfodaeth a’r system rheoli dogfennau**

Mae ffigurau gorfodaeth yr Awdurdod wedi’u heffeithio gan ddata chwarter 4 oedd yn ymwneud â’r rhaglen i glirio'r ôl-groniad o achosion hanesyddol. Mae'r angen i glirio'r ôl-groniad o achosion hanesyddol wedi’i gario ymlaen i 2018/19, ac unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi’i gwblhau, dylai olygu gwell perfformiad yn y tymor hwy yn y maes hwn. Mae Tîm Gorfodaeth yr Awdurdod wedi bod yn canolbwyntio ar leihau'r llwyth achosion hanesyddol drwy adolygu’r ffeiliau a chynnal ymweliadau safle.

Yn dilyn problemau gyda'r cyflenwr, bu oedi cyn gallu gweithredu'r system rheoli dogfennau, ac mae’r gwaith wedi’i gario ymlaen i 2018/19 gyda'r nod bod y system yn weithredol yn y flwyddyn honno.

## Cynnwys ac ymgysylltu pobl â'r broses gynllunio

Mae Tîm Rheoli Datblygu yr Awdurdod yn trefnu cymhorthfa gynllunio o 30 munud i gynorthwyo aelodau'r cyhoedd gydag ymholiadau cychwynnol ar faterion cynllunio. Mae'r gymhorthfa wedi bod yn ddefnyddiol o ran rhoi cyfle i'r cyhoedd gael gair â

Chynllunydd cyn cyflwyno ffurflen cyn-ymgeisio neu gais ffurfiol a chael cyngor ar y broses dan sylw. Mae'r apwyntiadau cymhorthfa hefyd yn cael eu defnyddio gan y cyhoedd i wneud ymholiadau cyffredinol ar gynllunio, yn enwedig mewn perthynas â'r hawliau datblygu a ganiateir.

Mae hwn wedi bod yn wasanaeth poblogaidd ac mae'r nifer sy'n manteisio ar y gwasanaeth bob amser yn uchel. Mae'r apwyntiadau cymhorthfa yn helpu aelodau'r cyhoedd i ddeall lefel y manylion/gwybodaeth fydd ei angen yn ôl pob tebyg ar gyfer datblygiad yn y dyfodol yn ogystal â'r broses o wneud penderfyniadau. Hefyd mae'r gwasanaeth yn gymorth i ddeall a fydd angen caniatâd cynllunio ar ddatblygiad posibl neu beidio. Mae aelodau'r cyhoedd wedi dweud eu bod yn gwerthfawrogi cael cyfle i drafod datblygiadau posibl gyda swyddog cynllunio.

Bu'r Awdurdod yn cynnal sesiynau ymgysylltu ar faterion gorfodaeth dros haf 2017/18 gan ganolbwyntio ar safleoedd Carafanau. Drwy'r gwaith ffocws hwn, gwelodd yr Awdurdod ostyngiad mewn cwynion yn ymwneud â safleoedd Carafanau.

**Defnyddio Cytundebau Adran 106 i gynyddu mynediad i'r Gymuned**

Mae llwybr cyhoeddus oedd wedi cau ers 1957 bellach wedi'i adfer, diolch i'r gwaith a wnaed gan LNG South Hook fel rhan o gytundeb gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae ailagor y llwybr yn un o ddau welliant i fynediad cefn gwlad oedd wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Adran 106 fel rhan o'r caniatâd cynllunio ar gyfer y derfynell nwy naturiol hylifedig.



**Cafodd llwybr troed ei ailagor o ganlyniad i gytundeb rhwng LNG South Hook ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.**

**Amcan Llesiant 6: Gwarchod a hyrwyddo diwylliant lleol o ran iaith, y celfyddydau a threftadaeth yn yr ardal.**

## Datblygu Porth i'r Parc Cenedlaethol

Gall adnoddau dehongli wedi'u gosod mewn mannau strategol helpu i wneud pobl yn fwy ymwybodol eu bod yn y Parc Cenedlaethol ac o Rinweddau Arbennig y Parc. Yn 2017/18 datblygwyd dau Banel Dehongli newydd, un ym Maes Parcio Saundersfoot a'r llall yn Amgueddfa Dinbych-y-pysgod.




Ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r tîm dehongli wedi bod yn rhan o ddatblygiadau yn ymwneud â maes parcio Broadhaven a'r gwelliannau y bwriedir eu gwneud fydd yn gymorth i ddatblygu'r lle fel Porth i'r Parc. Hefyd mae'r Swyddogion Dehongli yn gweithio gyda'r Swyddog Twristiaeth ar archwilio safleoedd y Parc Cenedlaethol, gan asesu pa safleoedd fyddai'n fwyaf addas fel Porth.

## Darparu cyfleoedd i gyfranogwyr ymgysylltu â Rhinweddau Arbennig y Parc a dysgu amdanynt yn Gymraeg

**307** — o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a ddarparwyd gan Barcmyn, Darganfod, yr Archeolegydd Cymunedol a chanolfannau yn Gymraeg yn 2017/18 ar draws 34 o sesiynau gweithgaredd.

**1,433** — o blant ysgol yn mynychu sesiynau ysgol a gyflwynwyd yn Gymraeg yn 2017/18 ar draws 55 o sesiynau.

## Gweithio ar y cyd i gynyddu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn y Dirwedd

Bu staff yr Awdurdod yn helpu i gyflwyno cwrs Cymraeg yn y Dirwedd o'r enw Myny, Mini, Mwni oedd wedi'i anelu at staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio i sefydliadau treftadaeth yn Sir Benfro. Cafodd y cwrs deuddydd a gynhaliwyd yn Oriel y Parc ac yng Nghanolfan Ddysgu Gymunedol y Preseli yng Nghrymych ei lunio gan swyddog yn yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a'i gyflwyno mewn partneriaeth ag APCAP a Menter Iaith Sir Benfro.

**Adborth gan ymwelwyr â Chastell Henllys:**

**"Ymweliad ardderchog. Hyfryd i glywed cymaint o Gymraeg, hefyd diddorol dros ben."**

**(Excellent visit. Lovely to hear so much Welsh, also incredibly interesting)**

## Cynllun Datblygu Iaith Gymraeg y Staff

Yn ystod 2017/18 bu 2 reolwr yn mynychu seminar Iaith 'Gweithio yn Gymraeg'. Mae cynlluniau presennol APCAP yn cael eu hadolygu yn dilyn Canllawiau Gwybodaeth newydd i Gyflogwyr gan y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Roedd yr Awdurdod hefyd yn aros am gyhoeddi'r offeryn diagnostig Cenedlaethol newydd. Roedd camau beunyddiol o weithredu megis asesu anghenion swyddi, y prosesau dethol, a darparu hyfforddiant wedi parhau yn ystod y flwyddyn.

**Cyfleoedd Gwella: Strategaeth y Gymraeg**
Yn 2017/18 bu'r Awdurdod yn datblygu Strategaeth Iaith Gymraeg. Bydd gweithredu a chyflawni'r strategaeth hon yn gatalydd i welliannau yn y maes hwn.

**Gweithio ar y cyd i alluogi pobl gael mynediad i waith celf o'r Casgliad Cenedlaethol a darganfod cysylltiadau rhwng celf a'r dirwedd**

**23,525** ymwelwyr a'r oriel yn 2017/18 o'i gymharu â 41762 yn 2016/17. Mae'r gostyngiad hwn yn ganlyniad i'r effaith gadarnhaol gafodd arddangosfa Constable ar niferoedd ymwelwyr yn 2016/17.

**18.9** yw cyfradd trosi yr Oriel ar gyfer # ymwelwyr fu'n ymweld ag Oriel y Parc oedd hefyd wedi ymweld â'r Oriel. Roedd hyn yn cymharu â 29.61 yn 2016/17 oedd o ganlyniad i effaith arddangosfa Constable.

**Gweithio ar y cyd i gyflwyno arddangosfeydd yn Oriel y Parc:**

**Stott o Oldham, Le Passeur (Y Fferïwr): Myfyrio ar Dirwedd - a gyflwynwyd mewn partneriaeth â'r Tate.**

**Sidney Nolan a Graham Sutherland, Naws am Le - a gyflwynwyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Ymddiriedolaeth Sidney Nolan.**

**Beth Robinson, Fy Nghartref Hynafol a Diamser - a gyflwynwyd drwy'r Cynllun Artist Preswyl.**

**Cyfleoedd gwella: Gweithio ar y cyd ar gyfer canlyniadau a rennir**
Yn 2018/19 bydd yr Awdurdod yn gweithio gydag Amgueddfa Genedlaethol Cymru i adnewyddu'r strategaeth ar gyfer y bartneriaeth. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau defnydd effeithiol o'r oriel yn Oriel y Parc i gynyddu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r cysylltiad diwylliannol rhwng pobl a thirweddau am y tymor hwy.

**Hyrwyddo ac ennyn diddordeb pobl yn yr amgylchedd hanesyddol**

**44,445** o gyfranogwyr diwylliannol yn 2017/18 o'i gymharu â 56,821 yn 2016/17. Gyda 11,284 o gyfranogwyr mewn gweithgareddau a digwyddiadau hanesyddol..

**6,274** o blant ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau addysg yng Nghastell Henllys a Chaeriw

**Digwyddiadau Poblogaidd yn 2017/18 yn cynnwys:**

**Hwyl a Sbri Canoloesol** - Gweithgareddau teuluol ar thema ganoloesol yng Nghaeriw

**Diwrnod Rhufeinig yng Nghastell Henllys - Cyfle i bobl deimlo'n rhan o hanes drwy fod yn ganwriad Rhufeinig neu'n rhyfelwr gwyllt peintiedig.**

**OTheatr Awyr Agored yng Nghaeriw, gan gynnwys - Nest, Billionaire Boy a Midsummer Night's Dream,**

## Cymryd ymagwedd integredig drwy weithgareddau ar thema Blwyddyn y Chwedlau

Blwyddyn y Chwedlau oedd thema Croeso Cymru yn 2017. Bu 4,584 o bobl yn mynychu gweithgareddau ar y thema Blwyddyn y Chwedlau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Penfro, bu'r Awdurdod yn cynhyrchu cyfres o ffilmiau byr a chlipiau sain fel rhan o brosiect Gwlad y Chwedlau Sir Benfro a ariannwyd gan Croeso Cymru. Roedd Swyddogion Dehongli yr Awdurdod wedi clustnodi ystod o chwedlau gwerin lleol a straeon ysbryd sy'n gysylltiedig â lleoliadau chwedlonol o gwmpas Arfordir Sir Benfro. Gyda chymorth Animality Productions, cafodd y storïau eu hail-ddychmygu gyda straeon sain a adroddwyd gan y storïwr Mary Medlicott a fideos lle mae aelodau o staff y Parc Cenedlaethol yn serennu.

## Helpu pobl i ofalu am adeiladau hanesyddol

**5.5%**

o adeiladau hanesyddol mewn perygl yn y Parc Cenedlaethol. Y targed yw <6%. APC Eryri - 16% (1.34% wedi'u tynnu oddi ar y rhestr risg). APC Bannau Brycheiniog - 9%.

## Ymdrech ar y cyd i ailadeiladu Tŷ Crwn yng Nghastell Henllys

Yn 2017/18 bu tîm o wirfoddolwyr yn gweithio'n galed yn helpu i gwblhau dwy ran hanfodol o'r prosiect i ailadeiladu tŷ crwn ym Mhentref Oes Haearn Castell Henllys. Roedd gwirfoddolwyr o Fferm Gofal Clynfyw, Coleg Plas Dwbwl a phrosiect Llwybrau APCAP i gyd wedi torchi llewys ar y prosiect ailadeiladu. Bu'r gwirfoddolwyr yn cyflawni tasgau pwysig gan gynnwys gwehyddu gwiail coed cyll i greu'r haen plethwaith o'r wal.

Dechreuodd y gwaith o ddatgymalu'r Tŷ Coginio gwreiddiol yn 2016 gan ei fod wedi cyrraedd diwedd ei oes effeithiol. Wedyn gosodwyd y cynheiliaid mewnol, y trawst cylch mewnol a'r waliau allanol ar gyfer y tŷ crwn newydd gan Wardeniaid yr Awdurdod Parc Cenedlaethol.

Mae'r tŷ crwn wedi'i ail-greu yn yr un lleoliad â'r tŷ crwn o'r oes haearn ar sail tystiolaeth archeolegol.



**Cefnogi grwpiau cymunedol ac eraill yn y Parc i adfer safleoedd o ddiddordeb hanesyddol.**

**116** — o safleoedd o ddiddordeb hanesyddol y bu gwahanol gymunedau yn ymwneud â hwy ac a wnaed yn ymwybodol ohonynt drwy anerchiadau a gweithgareddau.

| | |
|---|---|
| **Clirio Llystyfiant** | Drwy weithio gyda myfyrwyr Coleg Plas Dwbwl i glirio llystyfiant, roedd cyflwr cylch cerrig Gors Fawr wedi gwella. Yn yr un modd, mae gwirfoddolwyr Llwybrau wedi bod yn rhan o glirio llystyfiant sydd wedi gwella cyflwr caer bentir Oes Haearn Tŷ Canol. |
| **Atgyweirio a Chofnodi Difrod** | Bu myfyrwyr Coleg Sir Benfro ar Hyfforddiant Paratoi y Fyddin yn helpu i atgyweirio un o garneddau Foel Drygarn a chofnodi'r difrod i gerrig oedd wedi'u morthwylio a'u tolcio ar Garn Meini. Dechreuodd y grŵp ar eu gwaith ar Foel Drygarn drwy lenwi tyllau yn y garnedd a grëwyd gan gerddwyr yn creu llochesi. Mae'r safle hwn o'r Oes Efydd yn Heneb Gofrestredig, felly mae creu lloches mewn gwirionedd yn niweidiol i'r heneb. Llenwyd y tyllau i'w harbed rhag mynd yn ddyfnach. Ar Garn Meini, canfuwyd nifer o gerrig oedd wedi'u morthwylio a phentwr o ddarnau toredig o'r garreg las. |
| **Castell Henllys – Gwaith Cloddio** | Dechrau fis Mehefin, roedd Castell Henllys wedi croesawu'n ôl yr Athro Harold Mytum a'i dîm o fyfyrwyr o Brifysgol Lerpwl yn ogystal ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a'u tîm o wirfoddolwyr i gloddio olion y Tŷ Coginio cyn ei ailadeiladu. Roedd cloddio'r tŷ hwn yn gyfle unigryw i'r archaeolegwyr astudio effeithiau defnydd a dirywiad y tŷ yn ôl yr olion yn y pridd, sy'n ein galluogi i ddeall yn well safleoedd eraill yr Oes Haearn. Anfonwyd llythyrau hefyd at ysgolion cynradd lleol i roi gwybod i'r disgyblion am y gwaith cloddio, a chytunodd Castell Henllys i adael i'r plant a'u rhieni ddod i mewn yn ddi-dâl. Daeth 14 o deuluoedd, 22 o oedolion a 31 o blant i ymweld â'r cloddio a chymryd rhan yn y gweithgareddau archeolegol a drefnwyd. |
| **Arwyr Amser** | Mae'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy yn ariannu'r prosiect Arwyr Amser a ddechreuodd fis Ionawr 2018. Yn y prosiect hwn mae archeolegydd cymunedol yr Awdurdod yn gweithio gydag ysgolion cynradd i'w hannog i 'fabwysiadu' heneb treftadaeth leol. |

**Amcan Llesiant 7: Sicrhau bod ein gwaith yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang**

## Cefnogi arloesedd a datblygu cynaliadwy yn y Parc

**100%** wedi'i ymrwymo o gyllideb SDF 2017/18 a £68,321 pellach wedi'i ymrwymo o gyllideb 2018/19 a £10,383 o gyllideb SDF 2019/10.

Ymhlith y prosiectau a gefnogwyd yn 2017/18 oedd:

**Gwenyn Gwyllt Gorllewin Cymru -** a gyflwynwyd gan Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn, mae'r prosiect hwn drwy weithio gyda chymunedau yn defnyddio gweithgareddau llawn hwyl a rhyngweithiol i ennyn diddordeb, hyrwyddo a galluogi cymryd camau i wneud y Parc Cenedlaethol yn hafan ddeniadol i gacwn.

**Menter Peilot Pysgod Cregyn Cynaliadwy Sir Benfro -** Nod Ardaloedd Morol Cadwraeth Arbennig Sir Benfro yw dangos, drwy addysg, ennyn ymwybyddiaeth a chyflwyno mesurau ymarferol, ei bod yn bosibl gwella cynaliadwyedd offer pysgota sefydlog oddi ar Arfordir Sir Benfro.

**Adfer Gwres Compost -** Mae'r prosiect hwn yn galluogi ehangu busnes trin coed Arboculture yn y Parc Cenedlaethol i ddefnyddio system arloesol o adfer gwres compost fel ffynhonnell gwres sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd i sychu coed tân mewn odyn.

**Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro -** Mae'r prosiect hwn gan APCAP yn ariannu swydd cydlynydd rhan-amser prosiect Ysgolion Awyr Agored Sir Benfro i gyfrannu tuag at ddatblygu a chyflwyno rhaglen newydd o hyfforddiant a chymorth i ysgolion.

### Grant Bach Gwyrdd – Gweithio ar y cyd â Chymunedau

Yr Awdurdod mewn cydweithrediad â PLANED sy'n rhedeg y cynllun Grant Bach Gwyrdd sy'n helpu cymunedau i gyflawni prosiectau datblygu cynaliadwy. Yn 2017/18, derbyniodd y cynllun Cynnal y Llwybr Pren arian i wella profiad ymwelwyr â Llwybr Pren Llynnoedd Broadhaven drwy godi llwyfan/cuddfan gwylio adar a darparu gwybodaeth ategol i gynyddu gwerthfawrogiad yr ymwelydd o'r bywyd gwyllt brodorol. Bydd yr ardal newydd i wylio adar yn hygyrch i bawb ac yn caniatáu i ddefnyddwyr gael gwell golwg ar y cynefin a'i fywyd gwyllt.

**Llesiant –** a gyflwynir gan Cadwch Gymru'n Daclus, mae'r prosiect hwn yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru ac yn gwneud i ffynhonnau iachusol (ffynhonnau cysegredig, ffynhonnau sanctaidd a sbâs meddyginiaethol) yn y Parc Cenedlaethol yn fwy hygyrch.

**Cadwyn Gyflenwi Ynni Morol Adnewyddadwy -** Mae'r prosiect Fforwm Arfordir Sir Benfro hwn yn asesu gallu cadwyn gyflenwi cwmnïau Sir Benfro sydd â’r potensial i arallgyfeirio i'r diwydiant Ynni Adnewyddadwy’r Môr.

**Canolfan Gymunedol Brynberian -** Nod y prosiect hwn yw adnewyddu canolfan gymunedol Brynberian, gan gynnwys creu Canolfan Dreftadaeth newydd, fydd yn ganolbwynt cymdeithasol cynaliadwy, addas i'r diben, ar gyfer y pentref a'r ardal gyfagos.

**Coleg y Môr Cam 2 – N**od y prosiect hwn gan Sea Trust yw adeiladu ar lwyddiant eu prosiect Cam 1 drwy ehangu eu gweithgareddau addysgol awyr agored a hefyd arallgyfeirio i weithgareddau eco-dwristiaeth.

**Rheoli Gwymon yn Gynaliadwy** - Mae'r prosiect Greenseas Resources Cyf hwn yn canolbwyntio ar reoli blodau’r gwymon yn Nyfrffordd Aberdaugleddau fel modd o fynd i'r afael â lefelau uchel o faetholion sy'n effeithio ar ansawdd y dŵr.


**Astudiaeth o Hemosyanin Ewinedd Moch (Limpet Slipper) -** Astudiaeth ymchwil yw’r prosiect hwn gan Mikots Cyf i ymchwilio i echdynnu hemosyanin o'r ewinedd moch anfrodorol ymledol a'i gymharu â hemosyaninau a ddefnyddir ar hyn o bryd mewn cynnyrch fferyllol.

**Gofal Solfach - Datblygu -** Gan adeiladu ar yr arfer gorau a dreialwyd yn y cyfnod peilot gan Gyngor Cymuned Solfach, mae'r prosiect hwn yn edrych ar gyfuno’r gwasanaethau gwirfoddol newydd gyda’r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr Awdurdod Lleol a darparwyr gofal cartref preifat.

**Naturiol Cysylltiedig -** Roedd y prosiect hwn gan APCAP yn cynnwys gweithio gydag ecolegydd i dreialu menter ymgysylltu newydd ar g adwraeth â busnesau twristiaeth sy'n berchen ar dir yn y Parc Cenedlaethol.

## Asesu sut rydym ni'n perfformio o ran ein hallyriadau CO2

**946,712** Kg o allyriadau carbon yn 2017/18. Mae hyn yn gynnydd ar 870,313 yn 2016/17. Gwybodaeth bellach a dadansoddiad isod..




## Dadansoddiad o ffigurau Allyriadau CO2 a chroes gymhariaeth

- Mae'r dull cyfrifo wedi'i seilio ar gyfrifiannell carbon DEFRA a ddefnyddir hefyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Noder nad yw'r ffigur hwn wedi'i wirio'n annibynnol.
- Mae'r data yn dangos cynnydd mewn allyriadau carbon o gymharu â'r llynedd, ond mae rhai newidynnau yn ymwneud â'r modd y cyfrifwyd rhai ffigurau ar draws y ddwy flynedd sy'n awgrymu tanamcangyfrif mewn rhai meysydd yn 2016/17. Mae'r mater hwn bellach wedi derbyn sylw ar gyfer adrodd yn y dyfodol i alluogi mwy o gywirdeb o ran cymharu blwyddyn ar ben blwyddyn.
- Cyfrifo Trafnidiaeth Uniongyrchol – mae'r ffigur hwn wedi'i ddiwygio ar gyfer 2017/18 i wneud y cyfrifo yn fwy cywir, ac mae'r prosesau cofnodi wedi'u diwygio i wella cywirdeb a chroes gymharu ar gyfer 2018/19. Mae angen gwneud gwaith parhaus i adolygu Trafnidiaeth Uniongyrchol gan gynnwys gweithio gyda'r staff

a’r timau i glustnodi ffyrdd effeithiol o leihau milltiroedd ac ar yr un pryd sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu yn effeithiol.

- Olew a brynwyd - Defnyddiwyd ffigur oedd yn amcangyfrif am 2016/17, ac roedd cyllid wedi rhoi union ffigur am 2017/18, oedd dair gwaith yn uwch na'r amcangyfrif am 2016/17.
- LPG a brynwyd – Nid yw staff Castell Henllys wedi rhoi ffigur am y nwy a ddefnyddiwyd gan y caffi, felly defnyddiwyd ffigur y llynedd.
- Cadwyn Gyflenwi Anuniongyrchol - Gwariwyd yn sylweddol fwy yn 2017/18 ar gynnyrch amaethyddiaeth a choedwigaeth o'i gymharu â 2016/17.
- Trydan a Nwy Naturiol - mae llai o Drydan a Nwy Naturiol wedi’i ddefnyddio yn 2017/18.
- Cludiant Anuniongyrchol - mae'r cilometrau a deithiwyd gan gyflenwyr yn llai. Mae hyn yn bosibl oherwydd bod nifer o gyflenwyr lleol newydd wedi’u cynnwys.

**27,253** KwH o ynni adnewyddadwy a gynhyrchwyd o baneli ffotofoltäig Llanion ac Oriel y Parc yn 2017/18, o'i gymharu â 24,287 yn 2016/17.

**Hyrwyddo a chynyddu mynediad at bwyntiau gwefru trydan**

Mae gan yr Awdurdod bwynt gwefru cerbydau trydan ar hyn o bryd yn Oriel y Parc, a’r defnydd a wnaed ohono yn 2017/18 oedd 771 KwH o'i gymharu â 739 KwH yn 2016/17. Yn 2017/18 mae’r Awdurdod wedi sicrhau cyllid ar gyfer 2018/19 i ddarparu rhwydwaith o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ar hyd a lled y Parc. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ar y cyd â phartneriaid eraill yn y rhanbarth i sicrhau y gellir datblygu rhwydwaith integredig o bwyntiau gwefru cerbydau trydan ac arwain at dwf yn y defnydd.

**Cyfleoedd gwella: Lleihau ôl troed CO2 yr Awdurdod**

Drwy wella ein prosesau o gofnodi data a dadansoddi data blwyddyn ar ben blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn gallu clustnodi ble yn union y mae angen iddo wneud gwelliannau i leihau ei allyriadau CO2. O ddadansoddiad eleni mae angen edrych ar gludiant uniongyrchol a gweithio gyda’r staff i glustnodi ffyrdd effeithiol o leihau milltiroedd tra'n sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau yn effeithiol. Dau gam gweithredu a glustnodwyd ar gyfer Cynllun Corfforaethol 2018/19 ddylai gael effaith gadarnhaol yn y tymor hir yw gweithgareddau ar wneud fflyd yr Awdurdod yn fwy gwyrdd, ac adolygu effeithlonrwydd adnoddau o fewn yr Awdurdod. Bydd gweithio a dysgu oddi wrth eraill yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyfrannu'n hirdymor i'r Cynllun Llesiant ar gyfer prosiect Sir Benfro i ddatblygu Sir Garbon Niwtral.

**Gweithio ar y cyd i gyfrannu at sylfaen dystiolaeth ehangach ar fioamrywiaeth ac ecosystemau**

| | |
|---|---|
| **Prosiect Symud Data** | Cafodd cyfanswm o 19,841 o gofnodion rhywogaethau newydd eu crynhoi o ffeiliau papur a data electronig yr Awdurdod a'u hymgorffori yng nghronfa ddata Canolfan Wybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Mae'r cofnodion wedi'u gwahanu yng nghronfa ddata'r Ganolfan Wybodaeth i 178 o arolygon. Planhigion blodeuol oedd y grŵp mwyaf cyffredin o bell ffordd, gyda 17,110 o gofnodion wedi'u mewngofnodi o dan y tacson hwn. |
| **Monitro Britheg y Gors** | Mae nifer o'n safleoedd (yn ardal Mynachlog-ddu yn bennaf) yn cael eu monitro bob blwyddyn am lwyddiant bridio brith y gors. Yn yr un modd â 2016, ymddengys bod 2017 yn flwyddyn dlawd arall. Y rhywogaeth hon yw un o'r glöynnod byw sy'n dirywio gyflymaf yn Ewrop. Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cynnal ein rheolaeth o'r llefydd hyn a'u gwneud hyd yn oed yn fwy gwydn drwy ychwanegu eraill gerllaw. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r llynedd, mae Sir Benfro yn cefnogi bron i bumed rhan o'r boblogaeth fridio yng Nghymru, a De Orllewin Cymru yw prif gadarnle'r rhywogaeth. |
| **Bran Coesgoch ac Ystlumod** | Mae'r Awdurdod yn parhau i gynnal gwaith monitro blynyddol o'r frân goesgoch a monitro ystlumod yng Nghastell Caeriw. |

**Ymgysylltu ag Ysgolion a'r cyhoedd drwy weithgareddau i gynyddu dealltwriaeth o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol a Newid yn yr Hinsawdd**

**10.2** — Sgôr adborth y cyhoedd ar gyfartaledd o ddigwyddiadau a gweithgareddau (1-11). APC Bannau Brycheiniog - 10.

**24,220** — cyfranogwyr yn y rhaglen o weithgareddau (cyhoedd).

**9.9** — Sgôr adborth ysgolion ar gyfartaledd (1-11). APC Eryri - 10.83. APC Bannau Brycheiniog - 10.

**10,448** — Plant ysgol sy'n ymwneud â'r rhaglen addysg . 10,944 yn 2016/17. APC Eryri- 6,924. APC Bannau Brycheiniog - 6,596.

| | |
|---|---|
| **Grŵp Eco Ysgol Aberllydan** | Bu disgyblion o Grŵp Eco Ysgol Aber Llydan yn ymweld â thraeth Aber Llydan gyda Pharcmon APCAP ac yn archwilio pyllau yn y graig ar lanw isel. Roedd y disgyblion wedi dysgu am rywogaethau, cynefinoedd a materion cadwraeth morol (llygredd plastig). Wedi hynny aethant ymlaen i gael eu traed yn wlyb wrth chwilio am fywyd glannau'r môr. |
| **Darganfod mynydd lleol – Ysgol Preseli** | Bu Parcmyn y Gogledd yn cynorthwyo Ysgol y Preseli gyda'u cwrs croeso i ddisgyblion blwyddyn 6. Arweiniodd y Parcmyn y disgyblion ar daith gerdded o'r ysgol i fyny i Foel Drygarn gan sôn am bwysigrwydd y mynydd a'r ardal ehangach. |
| **Cyfrannu at Gymuned sy'n Gyfeillgar i wenyn** | Fel rhan o fenter i wneud Trefdraeth yn dref 'Gwenyn Gyfeillgar', bu Parcmon yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 6 o Ysgol Bro Ingli i godi Gwesty bygiau (mawr) ar dir yr ysgol gyda chymorth Warden Gwirfoddol. Defnyddiwyd llawer o gynnyrch wedi'i ailgylchu yn ogystal â chael y disgyblion i ddod ag eitemau i'r bygiau. |

**Cyfleoedd gwella: Gwobr Deuluol John Muir.**
Yn 2017/18 dyfarnwyd 0 o Wobrau Teulu John Muir gan yr Awdurdod. Fodd bynnag, cynhaliwyd gweithgareddau ehangach oedd yn gysylltiedig â Gwobr John Muir yn ystod y flwyddyn. Mae angen rhagor o waith yn 2018/19 i weld sut ellir hyrwyddo Gwobrau Teulu John Muir gan yr Awdurdod ac ar-lein.

**Gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i fabwysiadu ymagwedd integredig**

Prif Weithredwr yr Awdurdod sy'n cadeirio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ac roedd Aelodau'r Awdurdod wedi cael cyfle i wneud sylwadau ar y Cynllun Llesiant drafft ar gyfer Sir Benfro. Mae cynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2018/19 wedi'i ddylanwadu gan y cynllun llesiant drafft a'r asesiad llesiant lleol ar gyfer Sir Benfro.

**Llwyddo i gynnwys pobl yn y gwaith o gofnodi newidiadau i'r dirwedd**

**636** – y ffotograffau a gyflwynwyd fel rhan o'r prosiect Arfordir Newidiol yn 2017/18, prosiect ffotograffiaeth dorfol sydd yn dogfennu'r broses o newid arfordirol yn Sir Benfro.

## Llywodraethu Effeithiol a Chynaliadwyedd Ariannol

### Meddwl Tymor Hir o ran Cynaladwyedd Ariannol

Oherwydd yr hinsawdd gyfredol o adnoddau cyfyngedig, mae'r Awdurdod yn cydnabod yr angen i glustnodi cyllid o ffynonellau eraill. Yn 2017/18 roedd yr Awdurdod wedi recriwtio Rheolwr Cyllid Allanol i gynorthwyo gyda’r gwaith o glustnodi a mynd ar drywydd y ffynonellau hyn. Ar y 7fed o Chwefror 2018 cytunodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i sefydlu Ymddiriedolaeth Elusennol i gefnogi gwaith ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Penfro a galluogi codi arian o ystod ehangach o ffynonellau.

Yn ystod 2017/18 mae gwaith hefyd wedi'i wneud i ddatblygu ffocws mwy masnachol a phroffesiynol ar fanwerthu.

### Meddwl Tymor Hir – Datblygu Modelau Cyflawni Amgen

Penderfynodd yr Aelodau yn unfrydol yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Medi 2016 i symud i ffwrdd o fodel o wasanaeth canolfan ymwelwyr 'traddodiadol' ac i fuddsoddi mewn pecyn o fentrau newydd. Fel rhan o'r broses hon, caewyd canolfan ymwelwyr Dinbych-y-pysgod fis Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, yng nghyfarfodydd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd fis Tachwedd 2016 a fis Chwefror 2017, penderfynodd yr Aelodau i ymestyn y cyfnod o ymgysylltu â'r gymuned ynghylch newidiadau posibl i ddarparu gwasanaeth i ymwelwyr yn y dyfodol yn Nhrefdraeth tan fis Hydref 2017. Yn dilyn hyn penderfynodd yr Aelodau i Drosglwyddo Ased Cymunedol ar gyfer yr adeilad a chytuno yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Mawrth 2018 i weithio gyda Chyngor Tref Trefdraeth.

Fel rhan o'r ystod o fentrau newydd, treialwyd cael parcmon haf yn ardal Dinbych-y-pysgod a Saundersfoot, i gynnal digwyddiadau pop-yp ac ymgysylltu â busnesau lleol. Yn dilyn y cynllun peilot hwn, mae parcmyn haf wedi’u penodi i Ogledd a De'r Parc yn nhymor yr Haf 2018/19. Mae seminarau wedi’u trefnu ar gyfer 2018/19 yng Ngogledd Sir Benfro gyda Twristiaeth Sir Benfro, i edrych ar ffyrdd newydd o ddarparu gwybodaeth i ymwelwyr.

### Iechyd a Salwch

**5.83** diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch/ # staff cyfwerth ag amser llawn yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 7.82 yn 2016/17. APC Eryri - 7.2. APC Bannau Brycheiniog -12.23 (heb gynnwys hyfforddeion.)

**Parhau i fonitro digwyddiadau iechyd a diogelwch**

| | |
|---|---|
| 0 | RIDDOR - Digwyddiadau a gofnodwyd yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 1 yn 2016/17. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 1. |
| 0 | damweiniau (Anafiadau) absenoldeb dros 3 diwrnod/hyd at 7 diwrnod yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 1 yn 2016/17. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 1.. |
| 22 | mân ddamweiniau (Anafiadau) yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 24 yn 2016/17. APC Eryri - 5. APC Bannau Brycheiniog - 13. |
| 12 | difrod i gerbydau yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 6 yn 2016/17. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 4. |
| 1 | achosion o wrthdaro yn 2017/18. Hefyd cafwyd 1 digwyddiad yn 2016/17. APC Eryri - 0. APC Bannau Brycheiniog - 0. |
| 0 | achosion diogelu yn 2017/18. Hefyd cafwyd 0 digwyddiad yn 2016/17 hefyd. |

**Gweithio ar y cyd ag Aelodau - Presenoldeb a Hyfforddiant**

| | |
|---|---|
| 78.88% | presenoldeb Aelodau yn ystod 2017/18. . Targed 75%. 83.78% yn 2016/17. APC Eryri - 79.70%. |
| 63.78% | presenoldeb Aelodau mewn hyfforddiant yn ystod 2017/18. Islaw'r targed 65% ond yn uwch na 61.46% yn 2016/17. APC Bannau Brycheiniog - 75%. |

**Gweithio tuag at gyflawni Siarter Aelodaeth Uwch.**

Yn 2017/18 gwelodd yr Awdurdod nifer o gynrychiolwyr newydd y Cyngor Sir ac Aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddiant a gweithdai i'r Aelodau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys hyfforddiant sefydlu a chynllunio corfforaethol. Bu'r Gweithgor Strategaeth Datblygu Aelodau yn cyfarfod fis Medi i drafod y sefyllfa bresennol a'r camau nesaf. Mae tystiolaeth wedi parhau i gael ei chasglu i'w chyflwyno i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer y Siarter. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno gerbron y cyfarfod nesaf o Weithgor Strategaeth Datblygu Aelodau.

## Ymateb i Gyfarwyddiadau Comisiynydd y Gymraeg

**0** — cwynion ynghylch yr Iaith Gymraeg a wnaed i'r Awdurdod yn 2017/18. Mae hyn yn cymharu â 1 yn 2016/17.

**1** — cwynion i Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch methiant honedig i gydymffurfioâ Safonau'r Gymraeg yn 2017/18. APC Eryri - 1. APC Bannau Brycheiniog - 0.

Yn y Chwarter cyntaf gwnaed cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg. Gwelwyd bod yr Awdurdod wedi methu â chydymffurfio â Safonau 4, 5 a 7, a chyfarwyddwyd yr Awdurdod i gymryd camau penodol fel nad yw'r methiant hwn yn parhau nac yn digwydd eto. Mae'r Awdurdod wedi ymateb i'r cyfarwyddiadau ac wedi newid pennawd ei lythyr a chynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o'r angen i anfon llythyrau dwyieithog allan pan nad yw Dewis Iaith derbynnydd y llythyr yn hysbys.

Cytunodd yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar adroddiad blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer 2016/17 fis Mehefin 2017 a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.

**38%** — y swyddi a hysbysebwyd â'r Gymraeg yn hanfodol yn 2017/18, cyfanswm o 10 swyddi. Mae hyn yn cymharu â 52% yn 2016/17.

**Parhaodd yr Awdurdod i gynnal y gwaith o fonitro'r cyfryngau yn 2017/18.**

**99.45%** — Y sylw cadarnhaol neu niwtral yn y cyfryngau yn 2017/18. Uwchlaw'r targed o 80. 99.71% yn 2016/17.

## Adolygiad Llywodraethu a Gwaith Peilot  Swyddfa Archwilio Cymru

Yn 2016/17 bu Swyddfa Archwilio Cymru yn gwneud adolygiad Llywodraethu o'r Awdurdod. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd arolwg a gweithdai gyda'r Staff a'r Aelodau. Yn ystod 2017/18, derbyniodd yr awdurdod adborth ar y gweithgaredd ymgysylltu hwn. Y meysydd allweddol a glustnodwyd ar gyfer gwella o'r gwaith hwn oedd craffu, cyfathrebu, ymgysylltu, y broses arfarnu, cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg.

Yn ystod 2017/18, bu Swyddfa Archwilio Cymru yn edrych ar 'Sefydlu'r Prosiect Llwybrau' fel rhan o'i waith ar ddatblygu dulliau newydd o Archwilio.  Fel rhan o'r broses siaradodd y Swyddfa Archwilio gyda Staff, Aelodau a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd yr Awdurdod yn defnyddio'r adborth o'r gwaith peilot a wnaed gyda'r Awdurdod ac eraill i gael gwybodaeth am y modd y mae'n dangos y pum ffordd o weithio yn ei waith ac wrth wneud penderfyniadau.

## Paratoi ar gyfer y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Yn ystod 2017/18 cynhaliodd yr Awdurdod weithgareddau i baratoi ar gyfer y Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018. Roedd hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth drwy sesiynau yng Nghyfarfodydd Staff a chyflwyniadau i'r Aelodau. Sefydlwyd grŵp mewnol a chanolbwyntiwyd y gweithgareddau ar fynd i'r afael â mesurau atebolrwydd o fewn y rheoliadau yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Roedd hyn yn cynnwys creu cofrestr data, creu templed ar asesu effaith data ar gyfer yr Awdurdod, penodi Swyddog Diogelu Data, adolygu'r polisi ar ddiogelu data a'r hysbysiad preifatrwydd. Bydd yr Awdurdod yn parhau drwy gydol 2018/19 i gynorthwyo'r staff i gydymffurfio â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol ac i wneud y mesurau atebolrwydd yn rhan annatod o'n harferion gwaith.

## Cysylltwch â ni:

Gellir anfon sylwadau ar y dogfenu hon gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk gan roi Cynllun Corfforaethol fel pwnc neu gellir ysgrifennu at APCAP, Parc Llanion, Doc Penfro, SA72 6DY.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat arall, h.y. testun hawdd ei ddarllen, testun mawr, sain, a fyddech gystal â chysylltu â gwybodaeth@pembrokeshirecoast.org.uk / 01646 624800